

Dadansoddiad economaidd- gymdeithasol o Gymru

Mawrth 2026

Y Gronfa Twf Lleol

Llywodraeth Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	3
1 Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol	4
Beth yw cynhyrchiant a sut mae'n gysylltiedig ag ysbryd cystadleuol busnesau?.....	4
Tueddiadau cynhyrchiant	4
Tueddiadau cynhyrchiant y DU	4
Tueddiadau cynhyrchiant yng Nghymru	6
Pwysigrwydd gwella cynhyrchiant ledled Cymru	11
Cyd-destun busnes yng Nghymru	12
Cyfansoddiad sectorau busnesau yng Nghymru	12
Poblogaeth a nodweddion busnesau	14
Deinamigrwydd busnes.....	17
Cwmnïau twf uchel.....	19
Gwella twf busnes a chynhyrchiant.....	20
Cefnogi mentrau ac entrepreneuriaid	21
Gwella mynediad at gyllid	24
Sgiliau a chynhyrchiant	26
Ymchwil, datblygu ac arloesi.....	28
Crynodeb.....	32
2 Cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i mewn i waith.....	34
Pam bod cyfranogiad yn y farchnad lafur yn bwysig?.....	34
Y farchnad lafur yng Nghymru	34
Tueddiadau cyffredinol (Cymru yn erbyn y DU).....	35
Rhywedd.....	38
Oedran (pobl ifanc)	39
Ethnigrwydd	42
Anabledd	43
Amddifadedd cyflogaeth rhanbarthol.....	45
Sgiliau a chyrhaeddiad addysgol yng Nghymru.....	47

Rôl sgiliau wrth wella canlyniadau llafur ac economaidd	47
Cyrhaeddiad addysgol y gweithlu.....	48
Gwella sgiliau a chyfranogiad yn y farchnad lafur	52
Uwchsgilio gweithwyr.....	52
Gwella canlyniadau'r farchnad lafur yn ôl rhywedd.....	54
Gwella canlyniadau'r farchnad lafur yn ôl ethnigrwydd	55
Gwella canlyniadau'r farchnad lafur i bobl anabl	55
Gwella canlyniadau'r farchnad lafur i bobl ifanc	57
Crynodeb.....	58
3 Gwella seilwaith ranbarthol.....	60
Pwysigrwydd seilwaith gwyrdd.....	60
Allyriadau ar draws yr economi a rhwymedigaethau hinsawdd.....	60
Sectorau	63
Ynni adnewyddadwy a chynhyrchu ynni carbon isel.....	64
Trydan.....	64
Ynni adnewyddadwy yng Nghymru	67
O dan berchnogaeth leol.....	72
Storio a chapasiti	74
Ymyriadau Ynni	75
Rhesymeg y Ddyfais	75
Crynodeb o Ymyriadau Ynni	81
Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol.....	82
Ymyriadau Trafnidiaeth.....	93
Rhesymeg y Ddyfais	93
Tai / Tlodi Tanwydd.....	100
Ymyriadau Tai	108

Cyflwyniad

- I. Mae'r ddogfen hon yn ceisio rhoi trosolwg o'r data a'r llenyddiaeth sy'n berthnasol i'r tri maes blaenoriaeth a nodir yn Nghynllun Buddsoddi Llywodraeth Cymru. Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn cynnwys:

 - Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol**
 - Cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i mewn i waith**
 - Gwella seilwaith rhanbarthol**
- II. Mae'r dystiolaeth wedi'i llunio i helpu llunwyr polisïau a rhanddeiliaid ledled Cymru i ddeall pam mae ymyrryd i wella canlyniadau yn y meysydd blaenoriaeth hyn yn flaenoriaeth i'r Gronfa Twf Lleol, ac i gynnig enghreifftiau o gamau a allai arwain at ganlyniadau gwell yn y meysydd hyn. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw'r ymyriadau a awgrymir yn gynhwysfawr.
- III. Fel nodir yn y dystiolaeth, mae llawer o'r meysydd blaenoriaeth hyn yn gysylltiedig â'i gilydd a dylid eu hystyried yn y cyd-destun hwnnw er mwyn sicrhau bod ymyriadau'n cael eu dylunio er gwell i wneud y mwyaf o'r canlyniadau. Er enghraifft, er mwyn sicrhau y gall busnesau yma yng Nghymru fod mor gynhyrchiol â phosibl, bydd angen gweithlu arnynt sy'n diwallu orau y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo; sgiliau a ddylai wella canlyniadau'r farchnad lafur. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn hollbwysig i alluogi Cymru i gyflawni'r seilwaith sydd ei angen arni i drosglwyddo i economi werdd ac i wneud Cymru'n lle mor ddeniadol â phosibl i'w phobl fyw ynddo.
- IV. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr holl ddata a'r holl ffigurau a gyflwynir yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ym mis Chwefror 2026.

1 Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol

Beth yw cynhyrchiant a sut mae'n gysylltiedig ag ysbryd cystadleuol busnesau?

- 1.1 Mae cynhyrchiant yn cyfeirio at effeithlonrwydd cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau, a fesurir fel arfer fel yr allbwn a gynhyrchir fesul uned o fewnbwn (megis llafur). Yn ymarferol, o ran busnesau, mae cynhyrchiant uwch yn golygu y gall cwmni gynhyrchu mwy o allbwn o'i gymharu â'i fewnbynnau.
- 1.2 Mae'r cysylltiad rhwng cynhyrchiant ag ysbryd cystadleuol busnesau wedi'i sefydlu'n gadarn. Mae gwelliannau mewn cynhyrchiant yn lleihau costau mewnbyn cymharol ac yn galluogi cwmnïau i gynnig prisiau is a/neu gynhyrchion o ansawdd uwch. Ar yr un pryd, mae pwysau cystadleuol yn aml yn gwthio cwmnïau i wella effeithlonrwydd ac i fabwysiadu arferion gwell. Mae hyn yn creu cylch atgyfnerthol rhwng twf cynhyrchiant a mantais gystadleuol gynaliadwy.
- 1.3 Mae gwella cynhyrchiant yn codi safonau byw oherwydd ei fod yn galluogi economi i gynhyrchu mwy gyda'r un adnoddau, gan greu'r gofod ar gyfer elw uwch, cyflogau real, prisiau is, a gwell gwasanaethau cyhoeddus. Mae gwelliannau o'r fath yn angenrheidiol er mwyn cynyddu grym prynu cartrefi a lles economaidd cyffredinol mewn ffordd gynaliadwy.


Tueddiadau cynhyrchiant

Tueddiadau cynhyrchiant y DU

- 1.4 Er bod gwelliannau mewn cynhyrchiant wedi bod yn gadarn o safbwynt hanesyddol drwy'r rhan fwyaf o gyfnod ôl-ryfel y DU, bu arafiad sylweddol yn y twf hwn yn ystod y degawdau diweddar yn sgil argyfwng ariannol byd-eang (AAB) 2008–09. Mae **Ffigur 1.1** yn dangos llwybr cynhyrchiant yn y DU, wedi'i fynegi fel allbwn real fesul awr a weithiwyd. Pe bai cynhyrchiant wedi parhau ar ei duedd cyn-AAB, byddai cynhyrchiant ar gyfer y cyfnod diweddaraf (Ch2 2025) wedi bod dros draean yn uwch (34%) na'r hyn a gofnodwyd. Mae rôl allweddol cynhyrchiant wrth bennu safonau byw yn golygu bod y duedd barhaus hon wedi bod yn ffynhonnell sylweddol o bryder i lunwyr polisi ledled y DU.

Ffigur 1.1: Mae twf cynhyrchiant yn sylweddol is nag y byddai pe bai wedi dilyn y llwybr cyn-AAB

Allbwn real y DU fesul awr a weithiwyd, Mynegai (Ch1 2008 = 100)




Nodyn: Y cyfnodau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r llinellau tuedd yw 1993 i 2007 (cyn yr AAB) a 2010 i 2019 (cyn y pandemig).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r SYG

- 1.5 Dangosir maint yr arafu mewn cynhyrchiant ar ôl yr AAB o'i gymharu â dirwasgiadau blaenorol yn y DU yn **Ffigur 1.2**. Er bod cynhyrchiant y DU fel arfer wedi adennill ei lefelau cyn-ddirwasgiad o fewn dwy flynedd i ddirwasgiadau blaenorol, parhaodd cynhyrchiant, i raddau helaeth, yn is na'r lefelau hynny am bum mlynedd ar ôl yr AAB. Buperfformiad cynhyrchiant ers pandemig Covid-19 hefyd yn araf o'i gymharu â dirwasgiadau blaenorol, ac erbyn Ch2 2025 dim ond 1.6% yn uwch oedd cynhyrchiant nag yn Ch4 2019.

Ffigur 1.2: Mae twf cynhyrchiant llafur wedi bod yn araf ar ôl dirwasgiadau diweddar

Allbwn real y DU fesul awr a weithiwyd – Mynegai: Chwarter cyntaf cyn y dirwasgiad = 100



Nodyn: Chwarter cyntaf cyn y dirwasgiadau – Dirwasgiad cynnar yr 1980au (1979 Ch4); Dirwasgiad cynnar y 1990au (1990 Ch2); Yr Argyfwng Ariannol Byd-eang (2008 Ch1); Pandemig Covid-19 (2019 Ch4).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio data'r SYG

- 1.6 Profodd y rhan fwyaf o wledydd datblygedig ostyngiadau yn nhwf cynhyrchiant yn sgil y AAB; fodd bynnag, mae perfformiad cynhyrchiant y DU yn cymharu'n arbennig o wael o'i gymharu â nifer o wledydd mawr/uchel-incwm eraill y mae'n tueddu i gymharu'i hun â hwy. Er enghraifft, tyfodd GDP fesul awr a weithiwyd yn arafach yn y DU nag ym mhob un o wledydd y G7 ac eithrio Ffrainc a'r Eidal rhwng 2008 a 2023.¹ Mae lefelau cynhyrchiant y DU hefyd wedi bod yn gyson is na'r Unol Daleithiau, yr Almaen a Ffrainc dros y cyfnod hwn, ac yn 2023 roeddent 11.8% yn is na'r Unol Daleithiau (gwlad y G7 â'r cynhyrchiant uchaf). O ystyried y cysylltiadau cryf rhwng cynhyrchiant a safonau byw, mae pryderon difrifol bod y DU mewn perygl o weld rhagor o ostyngiadau yn ei safonau byw o'i chymharu â'r gwledydd hyn oni bai ei bod yn gallu dechrau gwrthdroi'r tueddiadau hyn.

Tueddiadau cynhyrchiant yng Nghymru

Cymru o'i chymharu â gwledydd/rhanbarthau eraill y DU


- 1.7 Mae heriau cynhyrchiant hirsefydlog Cymru yn rhan o'r cyd-destun ehangach hwn o berfformiad gwan diweddar yn y DU. Mae economi'r DU wedi cael ei hystyried yn anghyfartal yn ddaearyddol ers amser maith ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y data cynhyrchiant, gyda'r gwahaniaethau cynhyrchiant rhyngranbarthol a welir

¹Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Archwiliwr Data'r OECD. '[Lefelau cynhyrchiant: GDP fesul awr a weithiwyd](#)'. [cyrchwyd 15 Ionawr 2026].

yn y DU fel arfer yn cael eu hystyried ymhlith y mwyaf ar gyfer gwledydd yr OECD. Mae² **Ffigur 1.3** yn dangos gwahaniaethau cynhyrchiant rhanbarthol o'i gymharu â ffigur y DU yn ei chyfanrwydd ac yn rhoi rhai arwyddion o sut mae ffigur cyfartalog y DU yn cael ei yrru gan berfformiad Llundain a De Ddwyrain Lloegr. Roedd cynhyrchiant Cymru yn 2023 yr isaf o holl genhedloedd y DU/rhanbarthau Lloegr, gan ei fod 15.1% yn is na chyfartaledd y DU, ond roedd y ffigur hwn yn weddol debyg i ranbarthau cymharol yn Lloegr.

Ffigur 1.3: Lefelau amrywiol o gynhyrchiant llafur ledled y DU, gyda Chymru yn debyg i ranbarthau cymharol yn Lloegr

Allbwn fesul awr o'i gymharu â chyfartaledd y DU, 2023




Ffynhonnell: SYG

1.8 Fel y dengys **Ffigur 1.4**, ar gyfer y ddau brif fesur o gynhyrchiant llafur, mae bwlch Cymru â'r DU wedi parhau dros gyfnod hir. Mae hyn yn adlewyrchu'r heriau strwythurol gwreiddiedig dwfn y mae'n rhaid i Gymru fynd i'r afael â hwy er mwyn cydgyfeirio â chyfartaledd y DU.

² McCann and Yuan (2023). '[The Productivity Performance of Different Types of UK Regions and the Challenges of Levelling Up](#)'. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Ffigur 1.4: Mae bwlch cynhyrchiant Cymru â'r DU wedi parhau dros y degawdau diweddar

Cynhyrchiant yng Nghymru o'i gymharu â'r DU, Mynegai (DU = 100)



Nodyn: Nid yw'r echel Y yn dechrau ar sero

Ffynhonnell: SYG


Tueddiadau rhanbarthol Cymru

1.9 Nid yn unig y gwelir anghydwysedd lefelau cynhyrchiant yn y DU yn y gwahaniaethau rhwng Cymru a chenedloedd eraill y DU /rhanbarthau Lloegr. Ceir hefyd amrywiad sylweddol o fewn rhanbarthau Cymru eu hunain. Ar draws rhanbarthau economaidd Cymru, mae cynhyrchiant wedi bod yn gyson uwch yn Ne Ddwyrain y wlad ac yn isaf yng Nghanolbarth a De Orllewin Cymru (gweler **Ffigur 1.5**). Yn 2023, roedd yr allbwn fesul awr yn Ne Ddwyrain Cymru yn cyfateb i 87.2% o gyfartaledd y DU (3.2 pwynt canran yn uwch na ffigur Cymru gyfan), yng Ngogledd Cymru roedd yr un ffigur yn 85.6% (1.6 pwynt canran yn uwch na ffigur Cymru), ac yn 77.0% yng Nghanolbarth a De Orllewin Cymru (6.9 pwynt canran yn is na ffigur Cymru).³

³ Noder bod y ffigurau a ddyfynnir yn defnyddio ffigurau llyfnhau ar gyfer GYC isranbarthol fesul awr a weithiwyd, ac efallai y bydd y ffigurau'n amrywio ychydig o'r rhai a ddefnyddir mewn manau eraill yn yr adroddiad. Defnyddir ffigurau llyfnhau i leihau anwadlwydd data cynhyrchiant ar lefelau daearyddol is.

Ffigur 1.5: Perfformiad cynhyrchiant rhanbarthau economaidd Cymru o'i gymharu â'r DU

Allbwn fesul awr o'i gymharu â'r DU, Mynegai (DU = 100) yn ôl rhanbarth ITL2




Nodyn: Isranbarthol gan ddefnyddio dull GYC cytbwys (llyfnhau)

Ffynhonnell: SYG

- 1.10 Daw'r heriau hyn o fewn rhanbarthau, a'u lleoliad daearyddol, yn fwy amlwg wrth edrych ar y map a ddangosir yn **Ffigur 1.6**. Fel y gwelir, yr ardaloedd hynny lle mae cynhyrchiant llafur dros 5% yn uwch na chyfartaledd Cymru yw'r ardaloedd trefol neu fetropolitan sydd agosaf at y ffin â Lloegr, yng Ngogledd a De Ddwyrain Cymru fel ei gilydd — rhywbeth a drafodir ymhellach yn y bennod hon.

Ffigur 1.6: Mae cynhyrchiant llafur yn is mewn rhanbarthau mwy anghysbell o Gymru

Gwerth Ychwanegol Gros (GYC) fesul awr a weithiwyd o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, yn ôl rhanbarth ITL3 (2023)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r SYG


- 1.11 Er bod y map uchod yn tynnu sylw at raddfa'r anghydraddoldebau rhanbarthol ledled Cymru, mae yr un mor bwysig archwilio sut mae'r gwahaniaethau hyn wedi esblygu dros amser ac asesu a yw rhanbarthau Cymru yn symud yn nes at, neu'n bellach oddi wrth, gyfartaledd y DU. Mae **Ffigur 1.7** yn amlygu mai'r pedwar rhanbarth yng Nghymru a gofnododd y cynhyrchiant llafur uchaf yn 2023 oedd yr un rhai a welodd hefyd dwf cyflymach o'i gymharu â'r DU dros y ddau ddegawd blaenorol. Mae'r rhanbarthau hyn naill ai'n dal i fyny â chyfartaledd y DU neu, yn achos Sir y Fflint a Wrecsam, wedi rhagori arno. Mae ymchwil yn dangos bod y patrwm hwn i'w weld i raddau helaeth ledled y DU, gyda pherfformiad cynhyrchiant cymharol yn y gorffennol yn gweithredu fel rhagfynegydd cryf o berfformiad cynhyrchiant cymharol presennol.⁴ Yn amlwg, os bydd y tueddiadau

⁴ McCann and Yuan (2023). '[The Productivity Performance of Different Types of UK Regions and the Challenges of Levelling Up](#)'. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

hyn yn parhau, mae perygl y bydd anghydraddoldebau cynhyrchiant rhanbarthol yng Nghymru yn ehangu ymhellach.

Ffigur 1.7: Mae'r rhanbarthau â'r cynhyrchiant uchaf hefyd yn rhai sydd wedi gweld y twf cynhyrchiant mwyaf dros y degawdau diwethaf

Allbwn fesul awr: Newid mewn pwyntiau canran o'i gymharu â chyfartaledd y DU (2004 i 2023) a'r ffigur cymharol yn 2023 ar gyfer rhanbarthau ITL3 Cymru



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r SYG

Pwysigrwydd gwella cynhyrchiant ledled Cymru

1.12 Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos nad yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cynhyrchiant yn hanfodol yn unig i gryfhau perfformiad economaidd cyffredinol Cymru o'i gymharu â'r DU, ond ei fod hefyd yn allweddol i leihau anghydraddoldebau rhanbarthol o fewn Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y rhanbarthau hynny â lefelau uwch o gynhyrchiant wedi profi twf cyflymach, ac mewn rhai achosion, wedi llwyddo i ragori ar gyfartaledd y DU. Fodd bynnag, mae'r duedd hon hefyd yn tynnu sylw at y perygl o ehangu'r bylchau rhwng ardaloedd, gan amlygu'r angen am ymagwedd gydgyssylltiedig i wella cynhyrchiant ar draws holl ranbarthau Cymru.


Cyd-destun busnes yng Nghymru

1.13 Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o'r ffactorau sy'n berthnasol i ddeall cyfansoddiad economi Cymru o ran y boblogaeth fusnes a'r rhai sy'n gweithio ynddi.

Cyfansoddiad sectorau busnesau yng Nghymru

1.14 Yn 2023, o ran allbwn cyffredinol, cynhyrchodd economi Cymru £81.5 biliwn o Werth Ychwanegol Gros (GYC), sy'n cyfateb i 3.3% o gyfanswm ffigur y DU (heb gynnwys extra-regio). O'i chymharu â'r DU, un o'r nodweddion sy'n gwahaniaethu economi Cymru yw bod cyfran sylweddol fwy o'r allbwn yn cael ei gynhyrchu gan y sector *gweithgynhyrchu* a'r sectorau *cyhoeddus*, gyda chyfrannau is o allbwn yn dod o'r sector *bancio, cyllid ac yswiriant* – gweler **Ffigur 1.8** am gymhariaeth lawn rhwng y DU a Chymru.

Ffigur 1.8: Sut mae cyfansoddiad allbwn Cymru yn wahanol i gyfansoddiad y DU
Cyfran o gyfanswm GYC a gynhyrchir gan sector (2023)




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r SYG

1.15 Mae mwy na thraean (36.2%) o swyddi yng Nghymru yn y sector cyhoeddus, o'i gymharu ag ychydig yn llai na thraean (32.9%) ledled y DU. Caiff y galw am wasanaethau cyhoeddus ei greu gan y boblogaeth breswyl ac, ar sail fesul pen, mae swyddi yn y sector cyhoeddus yn fwy amlwg ond yn fras gymaradwy â rhanbarthau eraill yn Lloegr. Mae cyflogaeth yn y diwydiannau gwasanaethau yn is yng Nghymru, tra bod sectorau fel gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth ac adeiladu

yn cyfrif am gyfran fwy o'r swyddi. Mae'r patrymau hyn yn dod yn fwyfwy arwyddocaol i heriau cynhyrchiant Cymru, yn enwedig gan mai'r sectorau gwasanaethau sydd wedi gyrru adferiad economaidd y DU ar ôl y pandemig.

Ffigur 1.9: Sut mae cyfansoddiad cyflogaeth Cymru yn wahanol i gyfansoddiad y DU

Cyfran o gyfanswm cyflogaeth yn ôl sector (am y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mehefin 2025)



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (SYG)

- 1.16 Yn 2025, datgelodd Llywodraeth y DU ei Strategaeth Ddiwydiannol, gan glustnodi wyth 'sector twf' y disgwylir iddynt ysgogi ehangu economaidd y DU.⁵ Ymhlith y rhain, mae Cymru'n sefyll allan am gael cyfran uwch o'i gweithlu yn gweithio ym maes Gweithgynhyrchu Uwch a'r Gwyddorau Bywyd o'i chymharu â chyfartaledd y DU. Yn ogystal mae gan y sector Diwydiannau Ynni Glân yng Nghymru ôl troed cyflogaeth sy'n agos iawn at ffigur y DU. O fewn y sectorau twf eang hyn, mae Cymru'n dangos cryfder arbennig mewn sawl maes arbenigol, megis gweithgynhyrchu offer electronig a chyfathrebu, adfer deunyddiau wedi'u didoli, a gweithgareddau asiantau ac ymgynghorwyr yswiriant. Mae hyn yn tanlinellu rôl arwyddocaol Cymru yn y sectorau y mae Llywodraeth y DU wedi'u nodi fel y prif ysgogwyr twf economaidd yn y dyfodol.
- 1.17 Dylid pwysleisio bod archwiliadau cynharach o ddata cynhyrchiant rhanbarthol wedi dangos mai gwahaniaethau mewn cynhyrchiant o fewn sectorau unigol, yn hytrach nag o gyfansoddiad diwydiannau economi Cymru, sy'n cyfrif am y rhan

⁵ Yr Adran Fusnes a Masnach (2025). '[Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y DU](#)'. Llywodraeth y DU.

fwyaf o fwlch cynhyrchiant Cymru â'r DU yn ei chyfanrwydd.⁶ Dylai mynd i'r afael â'r rheswm pam mae cwmnïau yng Nghymru yn dangos cynhyrchiant is na chwmnïau cyfartalog y DU sy'n gweithredu o fewn yr un sector fod yn flaenoriaeth ar gyfer ymyriadau'r LGF.

Poblogaeth a nodweddion busnesau


- 1.18 Mae edrych ar ddsbarthiad busnesau yn ôl maint yn taflu mwy o oleuni ar strwythur economi Cymru a'r ffactorau sy'n sail i batrymau cynhyrchiant rhanbarthol. Yn 2023, roedd tua 248,000 o fentrau yng Nghymru, gyda busnesau bach a chanolig eu maint (BBaCh — y rheini sy'n cyflogi rhwng 0 a 249 o bobl) yn cyfrif am 99.3% o'r cyfanswm hwn. Mae pwysigrwydd BBaCh yn cael ei amlygu gan eu cyfraniad o 62.3% o'r holl gyflogaeth yng Nghymru a 43.4% o gyfanswm trosiant busnes. Roedd BBaCh yn cyfrif am gyfran 2.0 pwynt canran yn uwch o gyflogaeth yng Nghymru o'i chymharu â chyfartaledd y DU o 60.3%, gan amlygu pwysigrwydd hybu cynhyrchiant BBaCh er mwyn gwella lefelau cynhyrchiant cyffredinol.
- 1.19 Mae dadansoddi sut mae cyflogaeth yn cael ei dosbarthu yn ôl maint cwmnïau hefyd yn ystyriaeth allweddol wrth geisio deall gwahaniaethau cynhyrchiant rhanbarthol o fewn Cymru ac ar draws y DU. Er bod angen gofal i beidio â gorbwysleisio'r effaith, mae astudiaethau sy'n seiliedig ar ddata lefel-cwmni yn y DU yn dangos, ar ôl cyfrif am newidynnau eraill, fod cwmnïau mwy fel arfer yn arddangos lefelau uwch o gynhyrchiant llafur cyfartalog na'u cymheiriaid llai. Fodd bynnag, nid yw'r berthynas hon yn gyson ar draws pob sector ac mae'n anghyfrannol – sy'n golygu bod cynnydd ym maint cwmni yn arwain at ostyngiad graddol yn y manteision i gynhyrchiant ar gyfartaledd ar ôl pwynt penodol.⁷

⁶ Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (2018). '[Dadansoddi cynhyrchiant lefel cwmnïau ar sail rhanbarth ar gyfer economi busnesau nad ydynt yn ariannol, Prydain Fawr: Ebrill 2018](#)'.

⁷ Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). '[Firm-level labour productivity measures from the Annual Business Survey, UK: 1998 to 2019](#)'

Ffigur 1.10: Cyfran cyflogaeth BBaCh uchaf yng nghanol a gorllewin Cymru

Map o gyfran BBaCh o gyfanswm cyflogaeth, yn ôl awdurdod lleol 2023




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o 'Dadansoddi Maint Busnesau Cymru'

- 1.20 Mae **Ffigur 1.10** yn dangos y gyfran o gyflogaeth sy'n cael ei chyfrif gan BBaCh o fewn pob awdurdod lleol yng Nghymru, tra bod **Ffigur 1.11** yn darparu dadansoddiad yn ôl rhanbarth economaidd a maint busnes. Mae'r data'n datgelu bod cyflogaeth mewn BBaCh yn arbennig o arwyddocaol yng Nghanolbarth Cymru, lle mae BBaCh yn gyfrifol am 80% o'r holl gyflogaeth – canlyniad sy'n deillio'n bennaf o'r nifer uchel o fusnesau micro (y rheini sy'n cyflogi rhwng 0 a 9 o bobl). I'r gwrthwyneb, mae rhanbarth y De Ddwyrain yn cofnodi'r gyfran isaf o gyflogaeth mewn BBaCh, gyda BBaCh yn cyfrannu dim ond 58% at gyfanswm cyflogaeth y rhanbarth.

Ffigur 1.11: Mae busnesau micro yn cyfrif am y gyfran fawr o gyflogaeth BBaCh a welir yng Nghanolbarth Cymru

Crynodeiad cyflogaeth BBaCh ar draws rhanbarthau, 2023




Nodyn: Oherwydd camgyfrifon talgrynnu, gall y ffigurau fod ychydig yn anghywir
 Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ‘Dadansoddi Maint Busnesau Cymru’

1.21 Mae nifer o ffactorau’n helpu i egluro’r gwahanol lefelau o gyflogaeth BBaCh ar draws rhanbarthau Cymru. Un rheswm allweddol yw bod ardaloedd â chyfran fwy o swyddi mewn BBaCh yn aml yn cynnwys cyfran uwch o sectorau sy’n gysylltiedig â gweithgarwch BBaCh – er enghraifft, amaethyddiaeth. Yn ogystal, mae cyflogaeth mewn BBaCh fel arfer yn fwy amlwg mewn rhanbarthau sy’n fwy cyfeiriadol at yr economi wledig. Mae **Ffigur 1.12** yn cynnig tystiolaeth ategol ar gyfer y patrwm hwn o fewn Cymru, gan nodi perthynas wrthdro rhwng cyfran cyflogaeth BBaCh a dwysedd poblogaeth – mae rhanbarthau â dwysedd poblogaeth is yn tueddu i gael cyfran uwch o gyflogaeth mewn BBaCh.

Ffigur 1.12: Mae cyflogaeth mewn BBaCh yn cynyddu wrth i ddwysedd poblogaeth leihau

Dwysedd poblogaeth a chyfran cyflogaeth BBaCh awdurdodau lleol




Nodyn: Oherwydd camgyfrifon talgrynnu, gall y ffigurau BBaCh fod ychydig yn anghywir
 Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ‘Ddadansoddi Maint Busnesau Cymru’; StatsCymru

Deinamigrwydd busnes


- 1.22 Mae deinamigrwydd busnes yn cyfeirio at y broses barhaus o ffurfio, tyfu a chau busnesau o fewn economi. Fe'i nodweddir gan fynediad parhaus cwmnïau newydd ac ehangu, crebachu ac ymadawriad cwmnïau presennol. Credir yn gyffredinol bod y cylch hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddyraniad mwy cynhyrchiol o adnoddau ac yn cefnogi cystadleurwydd busnes ar draws yr economi gyfan.
- 1.23 Yn nhermau creu a dinistrio swyddi, mae deinamigrwydd busnes yn dal yr effaith net o'r symudiadau hyn. Mae busnesau newydd a chwmnïau sy'n ehangu yn creu cyfleoedd gwaith, tra bod y rhai sy'n crebachu neu'n cau yn cyfrannu at golledion swyddi. Mae **Ffigur 1.13** yn dangos bod effaith net hyn wedi bod yn gadarnhaol yng Nghymru yn gyffredinol dros y ddau ddegawd diwethaf o ddata sydd ar gael, gan adlewyrchu cynnydd yn lefelau cyflogaeth ar y cyfan.

Ffigur 1.13 & 1.14: Tystiolaeth o arafu yn y cylchrediad cyflogaeth

Effaith net creu/cael gwared ar swyddi yng Nghymru, fel cyfran o swyddi gweithredol



Cyfanswm creu/cael gwared ar swyddi, fel cyfran o swyddi gweithredol



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR)

1.24 Mae deinamigrwydd busnes wedi'i amlygu fel ffactor yn arafwch cynhyrchiant y DU ers yr argyfwng ariannol byd-eang, gan fod cyfraddau is o ffurfio, ehangu ac ymadawiad busnesau yn gallu lleihau'r aflonyddwch cystadleuol sy'n gallu ysgogi arloesedd ac yn rhwystro ail-ddyrannu adnoddau i gwmnïau mwy effeithlon ac arloesol.⁸ Pan fydd llai o fusnesau newydd yn dod yn rhan o'r farchnad, mae'n llai tebygol y bydd cwmnïau sy'n tanberfformio yn wynebu pwysau cystadleuol i wella neu gael eu disodli, ac mae hyn yn gallu arwain at ddiffyg twf, gyda mabwysiadu arafach o dechnolegau a dulliau newydd. Gall y lleihad hwn mewn deinamigrwydd gyfrannu at economi sy'n llai ymatebol ac yn llai cynhyrchiol yn gyffredinol, gan ehangu effaith materion strwythurol eraill megis lefelau cyfyngedig o fuddsoddi mewn cyfalaf a sgiliau.

⁸ The Productivity Institute (2024). '[Should we be worried about business dynamism?](#)'. Blog.

Cwmnïau twf uchel


- 1.25 Mae cwmnïau-twf uchel (BBThau) yn cael eu hystyried yn allweddol i wella cynhyrchiant y DU, gyda thystiolaeth o'r DU a thramor yn dangos bod nifer gymharol fach o gwmnïau sy'n graddio'n gyflym yn gyrru cyfran anghymesur o fawr o dwf cynhyrchiant, allbwn a chyflogaeth.⁹ Y diffiniad nodweddiadol o gwmni/menter twf uchel (HGF) a ddefnyddir o fewn y DU yw busnes sydd â thwf cyfartalog mewn cyflogaeth o fwy na 20% y flwyddyn dros gyfnod o dair blynedd. Y trothwy maint a ddefnyddir i adnabod y busnesau hyn yw bod ganddynt 10 o weithwyr neu fwy.
- 1.26 Mae tystiolaeth o'r DU a thramor yn dangos, er mai dim ond cyfran fach o BBaChau (nad ydynt yn ficrofusnesau) sy'n dangos y potensial i raddio'n gyflym – fel y gwelir mewn cynnydd sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn twf cyflogaeth – mai'r cwmnïau hyn sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r twf mewn cyflogaeth ymhlith yr un grŵp o gwmnïoedd.¹⁰
- 1.27 Yn 2024, nodwyd bod 4.4% o gwmnïau (nad ydynt yn ficrofusnesau) yng Nghymru yn fusnesau twf uchel, sef yr 8fed gyfradd uchaf o blith y 12 gwlad yn y DU /rhanbarthau yn Lloegr. Roedd ffigur y DU yn 4.9% ac, fel gydag ystadegau eraill, roedd hyn yn cael ei yrru i raddau helaeth gan berfformiad Llundain a De Ddwyrain Lloegr – gweler **Ffigur 1.15**.

⁹ Hart and Anyadike-Danes (2015). '[Contribution to Job Creation by High Growth SMEs](#)'. Papur mewnwelediadau ERC.

¹⁰ OECD (2021). '[Understanding Firm Growth: Helping SMEs Scale Up, OECD Studies on SMEs and Entrepreneurship](#)'

Ffigur 1.15: Cyfran Cymru o gwmnïau twf uchel yn is na chyfartaledd y DU

Cyfran y busnesau gweithredol (nad ydynt yn ficrofusnesau)* o fewn y rhanbarth sy'n 'dwf uchel' (2024)



Nodyn: * Busnesau gweithredol gyda 10 o weithwyr neu ragor
Ffynhonnell: SYG

1.28 Wrth edrych ar y ffigurau ar gyfer 2024 ar draws sectorau ar lefel y DU, y tri sector â'r cyfraddau HGF uchaf oedd 'Gwybodaeth a Chyfathrebu' (9.2%), 'Cyllid ac Yswiriant' (7.3%), a 'Gweinyddu busnes a gwasanaethau cymorth' (6.8%). Ar draws rhanbarthau Cymru roedd tri Awdurdod Lleol lle'r oedd y gyfradd twf uchel yn uwch na chyfartaledd y DU – sef Caerffili (6.1%), Caerdydd (6.0%), ac Abertawe (5.3%).

Gwella twf busnes a chynhyrchiant

1.29 Mae'r adran hon yn archwilio tystiolaeth sy'n gallu cynnig mewnwelediadau i sut y gellir targedu'r LGF yn effeithiol er mwyn gwella cynhyrchiant busnesau ledled Cymru. Mae ffocws yr adran hon ar sawl maes allweddol y credir eu bod fwyaf perthnasol i amcanion strategol yr LGF; felly dylid cydnabod nad yw hon yn rhestr lawn, gan fod ffactorau eraill yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynhyrchiant ond nad ydynt yn cael eu trafod yma.

1.30 Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae polisi-gwneuthurwyr yn y DU wedi canolbwyntio'n sylweddol ar ddeall yn well – ac yn y pen draw mynd i'r afael â –r achosion dros arafu cynhyrchiant y DU ers yr Argyfwng Ariannol Byd-eang. Mae hyn wedi bod yn bryder arbennig o ystyried sut mae arafu cynhyrchiant y DU yn cymharu ag economïau datblygedig eraill. Mae'r dystiolaeth o astudiaethau presennol yn awgrymu bod lleihad mewn buddsoddiad cyfalaf a thwf arafach yn

sgiliau'r gweithlu yn ffactorau arwyddocaol sy'n cyfrannu at y duedd hon.¹¹ Mae tystiolaeth gref bod buddsoddiad busnes yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynhyrchiant a thwf economaidd, yn ogystal ag amrywiaeth o brif ddangosyddion perfformiad busnes.¹² Am y rhesymau hyn, mae cyfrannu at—ac annog rhagor o—fuddsoddiad yn amcanion craidd o fewn y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol.

Cefnogi mentrau ac entrepreneuriaid

Cyngor Busnes

- 1.31 Mae pwysigrwydd cefnogi creu a thwf busnesau â photensial uchel er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethau cynhyrchiant rhanbarthol o fewn Cymru ac o'i chymharu â gweddill y DU wedi'i gyfeirio ato'n gynharach yn y bennod hon. Y prif ffordd y mae'r llywodraeth fel arfer yn darparu cymorth uniongyrchol i fusnesau bach a chanolig yw drwy raglenni cymorth busnes sy'n cynnig cyngor a/neu gymorth ariannol (er enghraifft, ar ffurf grantiau, cyllid ad-daladwy ac ati). Yng Nghymru, mae system cymorth busnes Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhaglenni megis Busnes Cymru, Cyswllt Ffermio a Banc Datblygu Cymru.¹³
- 1.32 Nid yw'r dystiolaeth ryngwladol ynghylch sut mae cyngor busnes yn effeithio ar gynhyrchiant yn rhoi darlun clir o'r berthynas rhyngddynt, yn rhannol oherwydd y lefel gyfyngedig o werthuso a gynhelir ar gyfer rhaglenni o'r fath. Mae adolygiad o raglenni cyngor busnes yn awgrymu bod eu heffaith yn fwy ar wella lefelau gwerthiant nag ar gyflogaeth a chynhyrchiant, ond mae'r canlyniadau'n gymysg yn gyffredinol.¹⁴ Fodd bynnag, mae ymchwil diweddar yn awgrymu y gall cyngor busnes gael effaith gadarnhaol ar gynhyrchiant, yn enwedig pan fo'n darparu arbenigedd ar faterion sydd wedi'u codio ac yn benodol – er enghraifft, yn ymwneud â chyllid allforio, cyfreithiol, treth a chydymffurfiaeth reoleiddiol.¹⁵

Entrepreneuriaid ac arweinwyr busnes sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

- 1.33 Mae grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn entrepreneuriaeth – gan gynnwys mudwyr, lleiafrifoedd ethnig, menywod, pobl anabl, a'r rhai â chyrhaeddiad addysgol isel – yn wynebu rhwystrau sy'n gyffredin yn ogystal â rhai sy'n benodol i'w grŵp. Mae heriau cyffredin yn cynnwys gwahaniaethu, mynediad cyfyngedig at gyllid, mynediad cyfyngedig at gyngor busnes a rhwydweithiau, a bylchau mewn sgiliau a phrofiad — sydd oll yn cyfrannu at droeon busnes is ac at

¹¹ L. Indraccolo (2025). '[Bridging the Gap: Understanding the UK-US Productivity Decoupling](#)'. Papur Materion Dethol yr IMF.

¹² Ganolfan Ymchwil Menter (2024). '[Business investment - drivers, barriers and economic impacts. A rapid literature review](#)'. Adroddiad Terfynol.

¹³ Llywodraeth Cymru (2025). '[Adolygiad o Gymorth Busnes](#)'.

¹⁴ What Works Centre for Local Economic Growth (2016). '[Business Advice](#)'. Adolygiad o Dystiolaeth.

¹⁵ Henley (2024). '[What Kind of Business Advice Improves Small Business Productivity?](#)' Papur Mewnwelediad ERC

gyfraddau goroesi is. Mae rhwystrau penodol i grwpiau yn gwaethygu'r anawsterau hyn ymhellach. Mae mudwyr yn aml yn wynebu rhwystrau iaith ac yn anghyfarwydd â sefydliadau a diwylliant lleol, tra bo menywod yn wynebu rhagfarnau sefydliadol a chymdeithasol. Gall entrepreneuriaid anabl fod ag ofn colli budd-daliadau ac yn aml maent yn brin o rwydweithiau cefnogol, ac mae'r rhai ag addysg ffurfiol isel yn wynebu lluo o rwystrau nad ydynt wedi'u hymchwilio'n ddigonol.¹⁶

- 1.34 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024, roedd menywod yn cyfrif am 50.2% o'r boblogaeth oedran gweithio (rhai 16 i 65 oed). Yn 2024, roedd tua 14% o gyflogwyr BBaCh yng Nghymru yn cael eu harwain gan dimau rheoli dan arweiniad menywod, sef cyfran sy'n agos iawn at ffigur y DU yn gyffredinol. Yn ogystal, roedd gan 31% o gyflogwyr BBaCh yng Nghymru dimau rheoli a oedd yn cael eu harwain yn gyfartal gan ddynion a menywod – ffigur sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y DU o 26%.¹⁷
- 1.35 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024, mae 5.9% o'r boblogaeth oedran gweithio yn uniaethu fel lleiafrif ethnig. Tua 4% o gyflogwyr BBaCh yng Nghymru oedd yn cael eu harwain gan dîm rheoli gyda hanner neu fwy o'i aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol (dan arweiniad MEG), o'i gymharu â 6% ar gyfer y DU yn ei chyfarwydd.¹⁸
- 1.36 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024, roedd 29.4% o'r boblogaeth oedran gweithio yn anabl. Tua 3% o'r holl gyflogwyr BBaCh oedd dan arweiniad pobl anabl, o'i gymharu â 2% yn y DU. Ymhlith cyflogwyr BBaCh yng Nghymru gyda mwy nag un perchennog, cyfarwyddwr neu bartner, nododd 8% fod o leiaf un aelod o'u tîm uwch yn anabl.¹⁹

Masnach Ryngwladol

- 1.37 Gall ymgysylltu â masnach ryngwladol wella cynhyrchiant busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru drwy agor mynediad at farchnadoedd mwy a sylfaen ehangach o ddefnyddwyr. Drwy allforio nwyddau a gwasanaethau, mae cwmnïau yng Nghymru yn cael eu hamlygu i gystadleuaeth fwy, sy'n helpu i annog arloesedd, gwella effeithlonrwydd ac ymrwymo i arferion gorau rhyngwladol. Gall cyfranogi mewn masnach ryngwladol alluogi busnesau i elwa ar dechnolegau newydd, syniadau amrywiol, a chyfleoedd i gydweithio â phartneriaid byd-eang – pob un yn ffactorau sy'n gyrru gwelliannau i gynnyrch a phrosesau. Mae tystiolaeth

¹⁶ Wishart (2018). '[Under-represented entrepreneurs: A literature review](#)'. Enterprise Research Centre.

¹⁷ Department for Business & Trade (2025). '[Arolwg hydredol busnesau bach 2024: "Cyflogwyr BBaCh \(busnesau ag 1 i 249 o weithwyr\)"](#)'. Tabl 35.

¹⁸ Department for Business & Trade (2025). '[Arolwg hydredol busnesau bach 2024: "Cyflogwyr BBaCh \(busnesau ag 1 i 249 o weithwyr\)"](#)'. Tabl 36.

¹⁹ Department for Business & Trade (2025). '[Arolwg hydredol busnesau bach 2024: "Cyflogwyr BBaCh \(busnesau ag 1 i 249 o weithwyr\)"](#)'. Tablau 30 & 37.

o'r DU yn awgrymu bod busnesau sy'n masnachu, hyd yn oed pan reolir am nodweddion eraill y cwmni, ar gyfartaledd yn fwy cynhyrchiol na'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.²⁰

- 1.38 Gall cyngor allforio gan weithwyr proffesiynol – er enghraifft ar ystyriaethau rheoleiddiol/cyfreithiol – ddarparu ffurf werthfawr o gymorth cefnogi busnes. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyngor allforio, er ei effeithiolrwydd wrth hybu cynhyrchiant, yn parhau i fod yn adnodd nad yw llawer o fusnesau yn ei ddefnyddio'n llawn.²¹

Cwmnïau deillio addysg uwch


- 1.39 Gall prifysgolion chwarae rôl ganolog wrth feithrin gweithgarwch entrepreneuriaid drwy weithio'n agos gyda busnesau, meithrin busnesau newydd dan arweiniad myfyrwyr, a masnacheiddio arloesiadau drwy fentrau a elwir yn 'gwmnïau deillio'. Mae cwmnïau deillio yn ffurf benodol ar fusnesau newydd, wedi'u gwreiddio mewn eiddo deallusol (IP) a gynhyrchir o ymchwil prifysgol. Fel arfer, mae'r mentrau hyn yn ffurfio pan fydd academyddion neu dimau ymchwil o fewn prifysgol yn datblygu darganfyddiad neu dechnoleg â photensial masnachol cryf. Mae cefnogi cwmnïau deillio nid yn unig yn hybu cynhyrchiant economaidd ond hefyd yn gwella cynaliadwyedd ariannol sefydliadau addysg uwch, sydd fel arfer yn cadw buddiant ecwiti yn y cwmnïau hyn.
- 1.40 Er bod mentrau a arweinir gan fyfyrwyr yn cael eu sefydlu mewn niferoedd uwch bob blwyddyn yng Nghymru o'i gymharu â sbîn-allan, mae cyfanswm yr incwm a gynhyrchir gan gwmnïau sbîn-allan gweithredol wedi rhagori'n gyson ar incwm mentrau myfyrwyr dros y pum mlynedd diwethaf y mae data ar gael ar eu cyfer. At hynny, o ran cynhyrchiant llafur, mae cwmnïau deillio wedi cynnal trosiant cyfartalog uwch fesul gweithiwr na busnesau newydd dan arweiniad myfyrwyr drwy gydol y degawd diwethaf, fel y dangosir yn **Ffigur 1.16**.

²⁰ Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). '[Firm-level labour productivity measures from the Annual Business Survey, UK: 1998 to 2019](#)'

²¹ Henley (2024). '[What Kind of Business Advice Improves Small Business Productivity?](#)' Papur Mewnwelediad ERC.

Ffigur 1.16: Mae cwmnïau deillio yn gyson yn cyflawni trosiant cyfartalog uwch fesul gweithiwr nag egin fusnesau myfyrwr

Trosiant fesul gweithiwr mewn busnesau newydd/cwmnïau deillio (sefydliadau addysg uwch yng Nghymru)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata HESA

Gwella mynediad at gyllid

- 1.41 Mae galluogi mynediad at gyllid yn hanfodol ar gyfer hybu twf cynhyrchiant, gan ei fod yn caniatáu i fusnesau fuddsoddi mewn technolegau newydd, ehangu eu gweithrediadau, ac uwchsgilio eu gweithlu. Pan all fusnesau sicrhau cyllid yn haws, maent yn well eu gallu i arloesi, mabwysiadu prosesau modern, ac ymateb i alw'r farchnad sy'n newid. I'r gwrthwyneb, gall rhwystrau i gyllid ffrwyno uchelgais, rhwystro graddfa ehangu cwmnïau â photensial twf uchel, a lleihau deinameg busnes.
- 1.42 Fodd bynnag, mae BBTHau (busnesau â thwf uchel) yn aml yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y cyllid sydd ei angen i'w galluogi i ehangu, oherwydd diffyg asedau diriaethol y gellir eu defnyddio fel gwarant, neu oherwydd diffyg enw da neu hanes credyd.²² Mae hyn yn rhwystr cyffredin a wynebir gan fusnesau newydd ac ifanc.
- 1.43 Yn ogystal â galluogi ehangu busnesau, awgrymodd ymchwil flaenorol fod mynediad at gyllid yn cael ei ystyried yn rhwystr gan tua thraean o BBaChau Cymru wrth geisio cyrraedd sylfaen defnyddwyr ehangach drwy allforio.²³ Tynnodd yr un astudiaeth sylw at y ffaith bod ymwybyddiaeth o'r cynhyrchion cyllid allforio presennol yn isel ymhlith y rhai sy'n allforio a'r rhai a oedd yn ystyried allforio. Gan


²² Bank Overground (2025). '[Unlocking growth: what can the literature tell us about what's holding back high-growth firms?](#)'. Banc Lloegr.

²³ Kapitsinis and others (2019). '[Cyllid Allforio yng Nghymru](#)'. Dirnad Economi Cymru.

fod ymgysylltu ag allforio a mewnforio – boed mewn nwyddau a/neu wasanaethau – yn gysylltiedig â chynhyrchiant uwch ymhlith cwmnïau yn y DU,²⁴ gall rhwystrau o'r fath effeithio'n negyddol ar berfformiad busnesau.

Ffigur 1.17: Mae cwmnïau yng Nghymru yn fwy tebygol na'r rheini mewn gwledydd datganoledig eraill o nodi amser a/neu gymhlethdod ceisiadau fel rhwystrau i gyllid

Rhwystrau a nodwyd i gael mynediad at gyllid allanol fel cyfran o'r cwmnïau sy'n adrodd eu bod yn wynebu unrhyw rwystrau, yn ôl y genedl ddatganoledig (2024)



Ffynhonnell: Banc Datblygu Cymru

1.44 Yn ôl adroddiad Cyrchu Cyllid ar gyfer BBaCh Cymru 2025 gan Dirnad Economi Cymru a Banc Busnes Prydain, roedd 57% o BBaChau Cymru wedi defnyddio o leiaf un ffurf o gyllid allanol, sef cyfran sy'n weddol debyg i'r ffigurau o wledydd datganoledig eraill y DU. Adroddodd tua un o bob pump o BBaChau Cymru (21%) eu bod wedi dod ar draws o leiaf un rhwystr wrth geisio sicrhau cyllid allanol. Ymhlith y rhai a nododd fod rhwystrau'n bodoli, y sialens a grybwyllwyd amlaf yng Nghymru oedd y gallu i sicrhau a/neu ad-dalu cyllid, a nodwyd gan 40% o'r ymatebwyr a oedd yn wynebu rhwystrau o'r fath. Yn benodol, roedd BBaChau Cymru yn sylweddol fwy tebygol na'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU o nodi'r amser a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â cheisiadau cyllid fel prif rwystr – gweler **Ffigur 1.17** am ragor o fanylion. Ar lefel ranbarthol, BBaChau yn Ne-orllewin Cymru oedd fwyaf tebygol o adrodd am rwystrau i gael mynediad at gyllid (26%), tra mai'r rhai yng Nghanolbarth Cymru oedd leiaf tebygol (15%). Fodd

²⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). 'Trade and productivity in British firms: 2005 to 2022'.

bynag, dylid dehongli'r cymariaethau mewnol hyn rhwng rhanbarthau gyda gofal oherwydd meintiau sampl llai mewn rhai ardaloedd.

Sgiliau a chynhyrchiant

- 1.45 Mae gwella sgiliau'r gweithlu – a elwir yn aml yn ddatblygu cyfalaf dynol – yn cael ei gydnabod yn eang fel prif ysgogwr gwell cynhyrchiant.²⁵ Nid yn unig y gall gweithlu mwy medrus gyflawni tasgau presennol yn fwy effeithiol, ond mae hefyd mewn gwell sefyllfa i gofleidio arloesi ac addasu i dechnolegau a dulliau gwaith sy'n dod i'r amlwg. Gall y gwelliannau hyn ddigwydd o fewn rolau presennol unigolion neu wrth drosglwyddo i swyddi newydd. Yn yr un modd, gall anhawster wrth recriwtio gweithwyr â'r sgiliau gofynnol ar gyfer swyddi gwag atal busnesau rhag ehangu eu gweithrediadau a/neu wella prosesau a chynhyrchion. Mae cael dealltwriaeth gliriach o ofynion sgiliau penodol busnesau ledled Cymru yn hanfodol ar gyfer ymdrechion i hybu cynhyrchiant ar draws y rhanbarthau. Caiff pwysigrwydd sgiliau o ran cyflogadwyedd yn ehangach ei archwilio'n fanylach yn y bennod nesaf '**Cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i mewn i waith**'.
- 1.46 Er bod corff sylweddol o ymchwil yn tanlinellu rôl hollbwysig addysg plentyndod cynnar wrth ddatblygu sgiliau gwybyddol ac anngwybyddol fel ei gilydd – sef y sylfeini sy'n dylanwadu'n gryf ar allu unigolion i ennill incwm yn y dyfodol a'u cyfleoedd cyflogaeth – mae'n parhau'n bwysig hyrwyddo addysg oedolion yn ehangach. Er y gall adeiladu sgiliau annwybyddol yn gynnar wneud unigolion yn fwy tebygol o ymgysylltu â dysgu pellach yn nes ymlaen yn eu bywydau,²⁶ dylid parhau i annog addysg oedolion yn weithredol fel ffordd o fynd i'r afael â phrinder sgiliau a sicrhau y gall cwmnïau gychwyn ac amsugno arloesedd. Nid yn unig y mae dysgu gydol oes yn cynnig manteision economaidd, ond mae hefyd yn dod â buddion cymdeithasol ac iechyd sylweddol, gan atgyfnerthu gwerth cefnogi addysg ym mhob cam o fywyd.²⁷
- 1.47 Oherwydd yr amrywiaeth o rolau a'u gofynion o ran sgiliau, gall darparu mewnwelediadau clir i natur prinder sgiliau fod yn heriol, yn enwedig mewn ardaloedd daearyddol is. Mae'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr (ESS) yn darparu tystiolaeth ar gyfer deall y farchnad lafur, gan gynnwys prinder sgiliau a bylchau sgiliau yng Nghymru ac ar draws rhanbarthau a sectorau Cymru. Dangosodd yr ESS 2024, a oedd yn seiliedig ar sampl o 5,605 o gyflogwyr yng Nghymru, fod 1 o bob 6 (17%) o gyflogwyr wedi adrodd fod ganddynt leiafswm o un swydd wag.

²⁵ Sianesi and Van Reenen (2003). 'The Returns to Education: Macroeconomics'. Journal of Economic Surveys, Cyfrol 17, Rhifyn 2, tt. 157-200


²⁶ Government Office for Science (2017). '[Future of Skills & Lifelong Learning](#)'.

²⁷ Schuller (2017). '[What are the wider benefits of learning across the life course?](#)'. Foresight, Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth.

Cyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru (19%) oedd fwyaf tebygol o gael swyddi gwag, tra mai'r rhai yng Nghanolbarth Cymru oedd leiaf tebygol (13%).

- 1.48 Cafodd cyflogwyr a nododd fod ganddynt swyddi gwag ar adeg y cyfweiliad eu holi a oedd unrhyw un o'r rheiny yn anodd eu llenwi ac, os felly, a oedd hyn oherwydd diffyg sgiliau, profiad neu gymwysterau ymhlith ymgeiswyr (swyddi gwag sy'n brin o sgiliau, SSVs).
- 1.49 Fel y dengys **Ffigur 1.18**, fe adroddodd tua 1 o bob 20 o gyflogwyr yng Nghymru (6%) am SSV yn 2024. Roedd hyn yn is na'r ffigur ar gyfer 2022 (10%) ond yn gymharol â lefelau a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gostyngodd cyfran y cyflogwyr a oedd yn adrodd am SSVs ar draws holl ranbarthau Cymru, er bod cyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru yn adrodd am yr achosion uchaf o SSVs (7%) tra bod Canolbarth Cymru yn adrodd am yr isaf (4%). Roedd cyfran yr holl swyddi gwag a adroddwyd yng Nghymru a oedd yn SSVs (dwysedd SSV) yn cyfrif am 28% o'r holl swyddi gwag yng Nghymru. Roedd hyn yn is na'r gyfran yn 2022 (35%) ond yn uwch na'r ffigur ar gyfer 2019 (24%). Er gwaethaf rhywfaint o amrywiad yn y blynyddoedd diwethaf, mae dwysedd SSVs wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2011. Yn 2024, roedd dwysedd SSVs ar yn isaf ymhlith cyflogwyr yn Ne Orllewin Cymru.

Ffigur 1.18: Gostyngodd nifer yr achosion o SSV ar draws pob rhanbarth i lefelau tebyg i 2019, ac roedd ar ei uchaf yn Ne-ddwyrain Cymru a'r isaf yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru



Ffynhonnell: Adroddiad Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2024 (Llywodraeth Cymru)

- 1.50 Canfu adolygiad o'r lenyddiaeth sy'n gwerthuso rhaglenni hyfforddi cyflogaeth fod yr hyfforddiant hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth neu enillion yn hanner o'r astudiaethau a adolygwyd.²⁸ Canfuwyd bod rhaglenni byr (llai na chwe mis o hyd, ac yn aml yn fyrrach) yn fwy effeithiol ar gyfer gweithgarwch hyfforddi llai ffurfiol. Profodd rhaglenni hyfforddi estynedig yn arbennig o fuddiol ar gyfer hyfforddiant a oedd yn fwy 'dwys o ran sgiliau'. Yn ogystal, canfuwyd bod hyfforddiant a ddarperir o fewn y gweithle neu drwy brofiad ymarferol yn fwy llwyddiannus na dulliau traddodiadol yn seiliedig ar ystafell ddosbarth. Daeth rhaglenni a ddyluniwyd ar y cyd â chyflogwyr ac sydd wedi'u halinio'n agos â gwir dasgau swydd i'r amlwg fel agweddau hanfodol o hyfforddiant effeithiol. Fodd bynnag, mae angen i unrhyw gymorth cyhoeddus ar gyfer darparu hyfforddiant fod wedi'i dargedu'n dda ac yn glir o ran sut y bydd yr hyfforddiant yn mynd i'r afael â'r bylchau sgiliau presennol.

Ymchwil, datblygu ac arloesi


- 1.51 Mae Datblygu, Ymchwil ac Arloesi (RD&I), a rôl gwybodaeth yn ehangach, wedi'u hystyried ers tro byd yn ysgogwyr sylfaenol cynhyrchiant llafur o fewn economi. Mae buddsoddi mewn RD&I yn galluogi busnesau i ddatblygu cynhyrchion newydd, gwella prosesau presennol, ac ymgymryd â thechnolegau blaengar, ac mae'r cyfan hyn yn gallu hybu cynhyrchiant. Mae'r ffactorau hyn hefyd yn gwella gallu'r gweithlu i addasu i newid technolegol ac yn cynyddu eu cyfraniad at dwf economaidd.
- 1.52 I Gymru, mae cryfhau RD&I yn arbennig o bwysig o ystyried y gyfran is o wariant ymchwil a datblygu (R&D) yn y DU sy'n cael ei gweld ar hyn o bryd o'i chymharu â maint ei phoblogaeth. Er bod Cymru'n cyfrif am 4.6% o boblogaeth y DU, dim ond 2.1% o wariant ymchwil a datblygu'r DU yn 2023 (gan eithrio sefydliadau dielw preifat) oedd ei gwariant o £1.5 biliwn.²⁹ Mae **Ffigur 1.19** yn dangos gwariant ymchwil a datblygu (R&D) wedi'i addasu fel ei fod yn cael ei ddangos ar sail y gwariant fesul pen o'r boblogaeth. Fel y gwelir, ar y sail hon mae gan Gymru'r lefel isaf o wariant ymchwil a datblygu fesul pen o'r boblogaeth ac, wrth edrych yn fanylach, y lefel isaf o wariant ymchwil a datblygu gan fentrau busnes.

²⁸ What Works Centre for Local Economic Growth (2016). '[Evidence review: Employment Training](#)'.

²⁹ Mae sefydliadau nid-er-elw preifat wedi'u heithrio gan fod y lefelau is o wariant yn y sector hwn yn aml yn ddatgeladwy ar lefelau rhanbarthol is yn y DU; o ganlyniad, nid oes data ar gael ar gyfer llawer o ranbarthau ITL1 y DU.

Ffigur 1.19: Gwariant R&D Cymru yn isel o'i gymharu â rhanbarthau eraill

Gwariant R&D (£) y pen o'r boblogaeth yn 2023, yn ôl ffynhonnell gwariant



Nodyn: Sefydliadau nid-er-elw heb eu cynnwys

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o wariant domestig gros ar R&D gan y SYG a'r amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn ar gyfer 2023

- 1.53 Mae cyfalaf rhwydwaith – sy'n cyfeirio at ansawdd a dwysedd cysylltiadau rhyng-sefydliadol – yn cael ei ystyried yn ffactor craidd sy'n galluogi lledaenu gwybodaeth o fewn ac rhwng rhanbarthau.³⁰ Er enghraifft, gall cydweithio rhwng busnesau, sefydliadau ymchwil a phrifysgolion greu effeithiau gorlifo cadarnhaol, gan alluogi'r endidau hyn i gyfnewid syniadau ac arbenigedd nad oes ganddynt neu nad oes modd iddynt gael mynediad atynt yn fewnol. Gellir wedyn harneisio'r syniadau hyn i wella cynhyrchiant o fewn cwmnïau.
- 1.54 Fel gyda sgiliau, gellir hefyd sicrhau manteision rhwydwaith ehangach drwy wella seilwaith trafndiaeth o fewn rhanbarthau er mwyn gwneud gwell defnydd o effeithiau 'cydgrynhoad' – y manteision sy'n deillio o gael cwmnïau agos at ei gilydd yn gorfforol (dwysedd gwirioneddol) neu'n fwy cysylltiedig drwy gysylltiadau trafndiaeth (dwysedd effeithiol). O ran lledaenu gwybodaeth, mae manteision cydgrynhoad nid yn unig yn cynnwys y gallu i gwmnïau a gweithwyr rannu a dysgu oddi wrth ei gilydd, ond hefyd yn galluogi paru mwy effeithlon rhwng cwmnïau a'u prynwyr, eu cyflenwyr a'u gweithwyr, fel eu bod yn cyd-fynd yn well â'u hanghenion

³⁰ Huggins and Thompson (2014). 'A Network-Based View of Regional Growth'. Journal of Economic Geography 14, tt 511-545


sgiliau.³¹ Yn wir, un esboniad am y cynhyrchiant uwch a welir yn y rhanbarthau sydd agosaf at y ffin â Chymru yw eu hagosatrwydd a'u cysylltedd â chanolfannau poblogaeth arwyddocaol eraill ar ochr Saesneg y ffin.

- 1.55 Diffinnir cwmni sy'n weithgar mewn arloesi gan yr OECD fel un sy'n "ymgysylltu ar ryw adeg yn ystod y cyfnod arsylwi ag un neu fwy o weithgareddau i ddatblygu neu weithredu cynhyrchion neu brosesau busnes newydd neu well ar gyfer defnydd penodedig. Gall cwmnïau arloesol a rhai nad ydynt yn arloesol fod yn weithgar mewn arloesi yn ystod cyfnod arsylwi."³² Yn y cyfnod diweddaraf (2020 i 2022) o ddata Arolwg Arloesedd y DU (UKIS), amcangyfrifir bod 30.9% o gwmnïau yng Nghymru wedi'u diffinio fel rhai sy'n weithgar mewn arloesi, sef 5.4 pwynt canran yn is na ffigur y DU, a oedd yn 36.3%.³³ Er bod rhywfaint o anwadalrwydd i'w weld yn y data rhanbarthol, mae gan Gymru gyfran is o gwmnïau sy'n weithgar mewn arloesi na chyfartaledd y DU ar gyfer pob un o'r pum cyfnod diweddaraf o ddata sydd ar gael – gweler **Ffigur 1.20**. Er nad yw'r ffigurau hyn yn rhoi mewnwelediad i ansawdd yr arloesedd a gyflawnir – o ran canlyniadau neu fesurau eraill – maent yn cyfrannu at y darlun ehangach o lefelau isel o wariant RD&I busnes yng Nghymru.

Ffigur 1.20: Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cwmnïau yng Nghymru wedi bod yn llai tebygol o frwr ati i geisio arloesi na'u cymheiriaid yn y DU

Cyfran y busnesau sy'n weithgar mewn arloesi, cenhedloedd y DU a rhanbarthau

Lloegr



Ffynhonnell: Yr Adran Fusnes a Masnach y DU (Arolwg Arloesedd 2023)

³¹ Andersson and others (2004). 'Cities, Matching and the Productivity Gains of Agglomeration'. Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd papur trafod Rhif 648.


³² OECD/Eurostat (2018). 'Oslo Manual 2018: Guidelines for Collecting, Reporting and Using Data on Innovation'. The Measurement of Scientific, Technological and Innovation Activities (4ydd Rhifyn)

³³Yr Adran Fusnes a Masnach (2024). 'Arolwg Arloesedd y DU 2023: adroddiad'. Atodiad Ystadegol.

- 1.56 Mae'r un set ddata yn awgrymu bod cwmnïau'n fwy tebygol o arloesi po fwyaf yw'r busnes, gyda 35.9% o BBaChau yn y DU yn weithgar mewn arloesi yn 2020–22 o'i gymharu â 49.5% o fusnesau mawr. Roedd arloesi hefyd ar ei uchaf ymhlith cwmnïau yn y sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau dwys-wybodaeth – y ddau fel arfer yn destun lefelau uchel o fasnach a chystadleuaeth – tra'r oedd ar ei isaf yn y sector adeiladu.
- 1.57 Mae UKIS yn taflu mwy o oleuni ar y rhesymau pam nad yw rhai cwmnïau yn mynd ar drywydd arloesi. Ymhlith busnesau yn y DU a ddsberthir fel 'heb arloesedd ehangach',³⁴ y rheswm a adroddwyd amlaf – a roddwyd gan 38.0% – oedd nad oedd angen oherwydd amodau'r farchnad. Dyma hefyd oedd y rheswm a grybwyllwyd amlaf ar draws holl genhedloedd y DU (gweler **Ffigur 1.21**). Un ffactor a oedd yn fwy tebygol o gael ei grybwyll fel rheswm dros beidio ag arloesi yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU oedd argaeledd neu gost cyllido arloesi, gyda 23.0% o fusnesau heb arloesi ehangach yng Nghymru yn nodi hyn fel rhwystr. Roedd hyn 10.4 pwynt canran yn uwch na'r ffigur ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd (12.6%).

Ffigur 1.21: Mae argaeledd/cost cyllid yn llawer mwy tebygol o gael ei grybwyll fel rhwystr i arloesi gan fusnesau yng Nghymru

Rhesymau dros beidio ag arloesi (cyfran o fusnesau heb arloesi ehangach), 2020 i 2022



Ffynhonnell: Adran Fusnes a Masnach y DU (Arolwg Arloesedd 2023)

³⁴ Mae busnesau heb arloesedd ehangach yn rhai nad ydynt yn ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau y mae cwmnïau sy'n weithgar mewn arloesedd yn eu gwneud ac nad ydynt yn buddsoddi yn y meysydd canlynol: ymchwil a datblygu mewnol, hyfforddiant, caffael gwybodaeth allanol, neu beiriannau ac offer sy'n gysylltiedig â gweithgareddau arloesedd.

- 1.58 Gwelwyd bod mabwysiadu technoleg ddigidol yn cael effaith sylweddol ar gynhyrchiant ar lefel y cwmni.³⁵ Fodd bynnag, mae ystod o rwystrau posibl a all atal busnesau rhag mabwysiadu technolegau digidol. Mewn arolwg diweddar y llynedd, y rheswm a grybwyllwyd amlaf gan BBaChau yn y DU fel yr hyn oedd yn eu hatal rhag buddsoddi yn y technolegau hyn oedd cost meddalwedd i'r busnes (32%) – ac roedd y tebygolrwydd o hyn yn cael ei grybwyll fel rhwystr yn uwch ymhlith microfusnesau nag ymhlith eu cymheiriaid bach a chanolig eu maint.³⁶
- 1.59 Mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cael ei fabwysiadu'n fwyfwy aml gan gwmnïau fel modd o hybu cynhyrchiant, symleiddio gweithrediadau a gwella'r broses o wneud penderfyniadau. Yn 2024, roedd tua 12% o fusnesau yng Nghymru yn defnyddio deallusrwydd artiffisial ar eu safleoedd (o'i gymharu â 14% o fusnesau yn y DU).³⁷ Fodd bynnag, mae arolygon o arferion rheoli yn y DU yn awgrymu bod diddordeb mewn mabwysiadu'r dechnoleg wedi bod yn cynyddu.³⁸ Er bod dadleuon parhaus ynghylch cynhwysiant AI, gyda phryderon ynghylch anghydraddoldebau posibl o ran mynediad a buddion, mae'r angen i aros yn gystadleuol mewn marchnad sy'n esblygu'n gyflym yn gyrru busnesau i gofleidio'r technolegau hyn. I lawer o sefydliadau, mae defnyddio AI yn offeryn nid yn unig i wella ond hefyd i gynnal eu hochr gystadleuol, gan fod y rhai sy'n methu cadw i fyny mewn perygl o lithro y tu ôl i'w cymheiriaid sy'n fwy datblygedig yn dechnolegol. Wrth gwrs, ni fydd defnyddio AI ar hyn o bryd yn berthnasol nac yn briodol ar draws pob sector a phob math o fusnes.

Crynodeb

- 1.60 Mae gwella cynhyrchiant yn flaenoriaeth frys i Gymru, gan ei fod yn sail i dwf economaidd, cystadleurwydd ac yn sbarduno cynnydd mewn safonau byw. Mae cynhyrchiant uwch yn galluogi busnesau i wneud defnydd gwell o adnoddau, arloesi, ac ymateb yn fwy effeithiol i heriau'r farchnad, sy'n hanfodol ar gyfer cynnal ffyniant yng nghyd-destun cystadleuaeth fyd-eang. I Gymru, mae targedu gwelliannau mewn cynhyrchiant yn arbennig o bwysig o ystyried yr angen i gau'r bwlch â rhannau eraill o'r DU, gan sicrhau y gall busnesau a gweithwyr fel ei gilydd elwa ar amodau economaidd mwy gwydn a deinamig.

³⁵ Nucci and others (2023). "Digital technologies and productivity: A firm-level investigation". Economic Modelling, Cyfrol 128, 106524

³⁶ Ipsos Mori (2025). '[Understanding technology adoption among UK SMEs](#)'. Adroddiad i Adran Busnes a Masnach y DU.

³⁷ Adran Addysg a Sgiliau Lloegr (2025). '[Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2024](#)'. Tablau canlyniadau – Cymru/DU. [Cyrchwyd: 23 Ionawr 2026]

³⁸ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). '[Management practices and technology adoption by firm characteristics in the UK](#)'. Argraffiad 2023 o'r set ddata.

- 1.61 Mae creu busnesau newydd â photensial uchel a chwmnïau deillio, yn enwedig y rhai a arweinir gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn hollbwysig ar gyfer meithrin arloesedd a chynhwysiant o fewn economi Cymru. Yn aml, mae'r mentrau hyn yn ffynhonnell syniadau arloesol, technolegau newydd a chreu swyddi, gan helpu i yrru twf hirdymor. Gall ymyriadau megis rhaglenni cymorth busnes wedi'u targedu, mynediad at grantiau cydweithredol, a sefydlu canolfannau arloesi helpu i feithrin talent entrepreneuriaidd a sicrhau bod cwmnïau addawol—waeth beth fo'u cefndir—yn gallu tyfu a ffynnu.
- 1.62 Mae cynyddu buddsoddiad cyfalaf mewn busnesau twf-uchel yn hanfodol i ryddhau eu potensial ac i gyflymu trawsnewid economaidd yng Nghymru. Mae mynediad at gyllid yn galluogi'r busnesau hyn i ehangu eu gweithrediadau, mabwysiadu technolegau newydd, a chystadlu'n effeithiol mewn marchnadoedd rhyngwladol. Gellir cefnogi eu twf drwy godi ymwybyddiaeth o'r opsiynau cyllido presennol, megis cyllid allforio ar gyfer BBaChau, a thrwy sicrhau bod rhaglenni cymorth busnes wedi'u cydlynu'n dda, yn fesuradwy, ac yn mynd i'r afael â bylchau cyllido gwirioneddol yn hytrach na dyblygu ymdrechion presennol.
- 1.63 Yn olaf, mae hybu buddsoddiad mewn ymchwil, datblygu ac arloesi (RD&I) ar draws economi Cymru yn hanfodol ar gyfer cynnal cystadleurwydd ac elwa ar dechnolegau presennol. Mae lefelau uwch o RD&I yn annog datblygu cynhyrchion a phrosesau newydd, gan yrru cynhyrchiant ac atgyfnerthu cryfderau economi sy'n seiliedig ar wybodaeth. Gall ymyriadau megis hwyluso cydweithio rhwng busnesau a sefydliadau ymchwil, datblygu manau cydweithredol, a chefnogi datblygiad clwstwr chwarae rôl arwyddocaol wrth gynyddu buddsoddiad mewn RD&I, gan gryfhau'r ecosystem arloesi ledled Cymru.

2 Cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i mewn i waith

Pam bod cyfranogiad yn y farchnad lafur yn bwysig?

- 2.1 Mae cyfranogiad yn y farchnad lafur yn cyfeirio at gyfran y boblogaeth oedran gwaith sydd naill ai mewn cyflogaeth neu'n chwilio'n weithredol am waith. Mae'n ddangosydd hollbwysig o iechyd economaidd, cynhwysiant cymdeithasol, ac argaeledd cyfleoedd o fewn economi.
- 2.2 Mae annog cyfranogiad yn y farchnad lafur yn ddymunol gan ei fod yn hanfodol am nifer o resymau. Er enghraifft:
- Twf Economaidd:** Mae cyfranogiad uwch yn y farchnad lafur, ar ffurf mwy o gyflogaeth, yn hybu allbwn, incwm a refeniw treth o fewn economi.
 - Cynhwysiant Cymdeithasol:** Gall cyflogaeth gefnogi lles unigolyn a lleihau tlodi a theimladau o allgáu cymdeithasol.
 - Cynaliadwyedd Cyllidol:** Mae cyfranogiad uwch yn lleihau dibyniaeth ar les a gwariant cyhoeddus ar fudd-daliadau gan ryddhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau eraill.
 - Effaith Pontio'r Cenedlaethau:** Mae cyfranogiad yn dylanwadu ar ganlyniadau addysgol ac iechyd i genedlaethau'r dyfodol.
- 2.3 Mae'r bennod hon yn darparu trosolwg o'r ffigurau a'r tueddiadau sy'n berthnasol i'r farchnad lafur yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys trosolwg o broffil sgiliau'r gweithlu yng Nghymru, o ystyried eu rôl bwysig wrth alluogi gweithwyr i sicrhau cyflogaeth a/neu ennill cyflogau gwell. Bydd y bennod hon hefyd yn ceisio darparu trosolwg o'r math o ymyriadau sydd wedi'u defnyddio yng Nghymru ac mewn mannau eraill i hybu cyfranogiad yn y farchnad lafur a datblygu sgiliau.

Y farchnad lafur yng Nghymru

- 2.4 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, roedd 1,934,000 o bobl o oedran gweithio (16 i 64) yng Nghymru, sy'n cyfateb i 4.6% o'r rhai o oedran gweithio yn y DU. Roedd ychydig dros hanner (50.1%) o'r rhai 16 i 64 oed yn byw yn Ne Ddwyrain


Cymru, gyda 22.0% yn Ne Orllewin Cymru, 21.6% yng Ngogledd Cymru, a 6.3% yng Nghanolbarth Cymru.³⁹ Gellir dod o hyd i wybodaeth am ddsbarthiad cyflogaeth yn ôl sector yn yr adran flaenorol ‘**Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol**’.

Tueddiadau cyffredinol (Cymru yn erbyn y DU)

2.5 Roedd y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl 16 i 64 oed yng Nghymru yn 72.3% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, sef 3.2 pwynt canran yn is na'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU (75.5%). Mae'r bwlch â'r DU wedi aros yn gymharol gyson, gan ei fod wedi sefyll ar 3.3 pwynt canran yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2005. Er hynny, mae'r DU a Chymru ill dau wedi gweld cynnydd yn y cyfraddau cyflogaeth dros y ddau ddegawd diwethaf, gyda Chymru'n tueddu i ddilyn patrwm tebyg i'r gyfradd ar draws y DU (gweler **Ffigur 2.1**).

Ffigur 2.1: Gwelwyd gwelliant yn y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf, ac mae'r patrwm hwn yn tueddu i adlewyrchu'r hyn a welir ar draws y DU

Cyfradd cyflogaeth (%) ymhlith pobl 16 i 64 oed, Cymru a'r DU



Nodyn: Mae'r data blynyddol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Medi o'r flwyddyn dan sylw
Ffynhonnell: StatsCymru (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)


2.6 Fel mae **Ffigur 2.2** yn awgrymu, gellir egluro'r dirywiad yn y gyfradd cyflogaeth rhwng 2007 a 2011 yn rhannol oherwydd y cynnydd yn y gyfradd ddiweithdra a welwyd yn ystod dirwasgiad economaidd y cyfnod hwnnw. O ganlyniad i'r argyfwng ariannol byd-eang, cododd y gyfradd ddiweithdra i 8.5% yn y diwedd yn 2011 (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi), ond gostyngodd yn y

³⁹ Llywodraeth Cymru (2026). ‘[Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: crynodeb o weithgarwch economaidd | StatsCymru](#)’. [Cyrchwyd 9 Mawrth 2026]

blynyddoedd dilynol ac roedd yn 4.5% yn 2025. Mae'r gyfradd ddiweithdra yng Nghymru wedi dilyn patrwm tebyg iawn i'r DU dros y ddau ddegawd diwethaf o ddata sydd ar gael. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu mae pryder ymhlith rhagolygon annibynnol y bydd amodau economaidd yn arwain at lefelau uwch o ddiweithdra yn y DU yn 2026 o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf.⁴⁰

Ffigur 2.2: Cododd y gyfradd ddiweithdra yn sylweddol yn ystod yr argyfwng ariannol byd-eang, ond fe adferodd yn y blynyddoedd dilynol

Cyfradd ddiweithdra (%) ymhlith pobl 16 oed a throsodd




Nodyn: Mae'r data blynyddol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Medi o'r flwyddyn dan sylw
Ffynhonnell: StatsCymru (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)

- 2.7 Roedd cyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer pobl 16 i 64 oed yng Nghymru yn 24.1% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, sy'n cyfateb i 446,200 o bobl. Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd 3.0 pwynt canran yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill y DU, lle'r oedd y ffigur yn sefyll ar 21.1%. Pe bai cyfradd anweithgarwch economaidd Cymru yn cael ei lleihau i lefel cyfatebol i'r DU, byddai hyn yn cyfateb i tua 58,100 yn fwy o unigolion 16 i 64 oed yn economaidd weithgar.
- 2.8 Mae llawer o'r bwlch hanesyddol yn y gyfradd cyflogaeth rhwng Cymru a'r DU wedi'i briodoli i lefelau uchel parhaus o anweithgarwch economaidd yng Nghymru. Fel y dengys **Ffigur 2.3**, er bod cyfraddau anweithgarwch economaidd wedi bod yn gostwng yn raddol dros y degawdau diwethaf, mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU wedi aros yn gymharol sefydlog

⁴⁰ Trysorlys EF (2026). '[Rhagolygon ar gyfer economi'r DU: cymhariaeth o ragolygon annibynnol](#)'.

Ffigur 2.3: Mae cyfradd anweithgarwch economaidd wedi bod yn gostwng yn raddol yng Nghymru, ond mae'r bwlch parhaus â'r DU yn bodoli o hyd

Cyfradd anweithgarwch economaidd (%) ymhlith y rhai 16 i 64 oed




Nodyn: Mae'r data blynyddol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Medi o'r flwyddyn dan sylw
Ffynhonnell: StatsCymru (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)

2.9 O ystyried cyfraddau uwch o anweithgarwch yng Nghymru o'i chymharu â'r DU, mae'n ddefnyddiol deall y rhesymau a roddir dros yr anweithgarwch hwnnw. Salwch hirdymor yw'r prif reswm dros anweithgarwch yng Nghymru, gyda 33.6% o unigolion yn ei nodi (yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025), sy'n uwch na'r ffigur ar draws y DU (28.1%). Fel y dengys **Ffigur 2.4**, tyfodd cyfran y rhai a nododd broblem iechyd hirdymor fel prif achos eu hanweithgarwch economaidd yn y blynyddoedd ar ôl pandemig Covid-19, gyda chynnydd ar draws pob math o gyflwr iechyd (meddyliol a chorfforol).⁴¹ Bu gostyngiad yn yr anweithgarwch oherwydd cyfrifoldebau gofalu, sy'n bosibl o adlewyrchu newidiadau mewn normau cymdeithasol a mwy o ddefnydd o ofal cymdeithasol a darpariaeth gofal plant.

⁴¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023). ['Rising ill-health and economic inactivity because of long-term sickness, UK: 2019 to 2023'](#).

Ffigur 2.4: Mae salwch tymor hir wedi dod yn brif reswm dros anweithgarwch i fwy na thraean o'r unigolion sy'n economaidd anweithgar ers pandemig Covid-19

Prif reswm dros anweithgarwch economaidd ymhlith pobl 16 i 64 oed yng Nghymru, cyfran (%) o'r holl rai sy'n economaidd anweithgar



Nodyn: Mae'r holl bwyntiau data ar gyfer y flwyddyn yn diweddau ym mis Medi ar gyfer y flwyddyn a nodir; nid oes data ar gyfer y categori "Anogwyd i beidio" ar gyfer 2024, felly mae 2023 a 2025 wedi eu cysylltu
Ffynhonnell: (Arolwg Poblogaeth Blynyddol), Swyddfa Ystadegau Gwladol


2.10 Mae'n bwysig cydnabod nad yw pob achos o anweithgarwch economaidd o reidrwydd yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef. Er enghraifft, bydd unigolion sydd ar hyn o bryd mewn addysg yn aml yn ennill sgiliau a fydd yn gwella eu canlyniadau yn y farchnad lafur ar ôl cwblhau eu hastudiaethau. Fodd bynnag, mae'r data'n awgrymu bod llawer o bobl nad ydynt yn cymryd rhan yn y farchnad lafur er eu bod yn dymuno gwneud hynny. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, nododd 19.3% o'r rhai 16 i 64 oed yng Nghymru oedd yn economaidd anweithgar eu bod am gael swydd. Mae hwyluso llwybrau i gyflogaeth ar gyfer unigolion economaidd anweithgar sy'n mynegi awydd i weithio yn dod â buddion amlwg i'r unigolion dan sylw ac i'r economi ehangach.

Rhywedd

2.11 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, roedd anweithgarwch economaidd ymhlith menywod (16 i 64 oed) 6.0 pwynt canran yn uwch nag ymhlith dynion, sef 27.1% a 21.1% yn y drefn honno. Fel y dengys **Ffigur 2.5**, er bod y bwlch hwn wedi bodoli ym mhob cyfnod o'r data sydd ar gael, bu cydgyfeirio cadarnhaol yn y cyfraddau dros y ddau ddegawd diwethaf. Yn 2005, roedd y bwlch mewn anweithgarwch economaidd rhwng dynion a menywod yn 12.1 pwynt canran.

Ffigur 2.5: Mae anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn uwch ymhlith menywod, ond mae'r gyfradd wedi bod yn cydgyfeirio â'r ffigur ar gyfer dynion

Cyfradd anweithgarwch economaidd (%) ymhlith y rhai 16 i 64 oed yng Nghymru, yn ôl rhywedd



Nodyn: Mae'r data blynyddol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Medi o'r flwyddyn dan sylw
Ffynhonnell: StatsCymru (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)


- 2.12 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, y rheswm mwyaf cyffredin dros anweithgarwch economaidd ymhlith dynion yng Nghymru oedd salwch hirdymor, a gododd 1.6 pwynt canran dros y flwyddyn i gyrraedd 36.9% o'r holl ddynion anweithgar yn economaidd. Y rheswm nesaf mwyaf cyffredin oedd bod yn fyfyrwr, a oedd yn cyfrif am 25.5%. Yn hanesyddol, y rheswm mwyaf cyffredin dros anweithgarwch economaidd ymhlith menywod yng Nghymru oedd gofalu am y teulu neu'r cartref, er bod y duedd gyffredinol wedi bod yn gostwng dros amser. Yn ystod 2020 i 2021, gostyngodd y gyfran hon yn sydyn, a gallai hyn fod oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19), gan fod tuedd gyferbyniol wedi'i gweld ymhlith y rhai a roddodd 'rhesymau eraill'.
- 2.13 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, y rheswm mwyaf cyffredin dros anweithgarwch economaidd ymhlith menywod yng Nghymru oedd salwch hirdymor, gan gynrychioli 31.1% o'r holl fenywod anweithgar yn economaidd. Dros yr un cyfnod, roedd y gyfran o'r rhai a oedd yn gofalu am y teulu/cartref yn cyfrif am 21.8% o'r holl fenywod anweithgar yn economaidd.

Oedran (pobl ifanc)

- 2.14 Wrth edrych ar gyfranogiad yn y farchnad lafur yn ôl oedran, mae'n ddefnyddiol ystyried y gyfradd anweithgarwch economaidd sy'n eithrio myfyrwyr (gan fod hyn fel arfer yn chwyddo ffigurau ar gyfer y cohortau iau). Mae **Ffigur 2.6** yn dangos mai'r garfan a welodd y gostyngiad mwyaf yn eu cyfradd anweithgarwch

economaidd yw oedolion hŷn o oedran gweithio – y rhai rhwng 50 a 64 oed. Mae dadansoddiad o'r data yn awgrymu, er i'r gyfradd anweithgarwch economaidd ostwng ar gyfer dynion a menywod o fewn y garfan hon dros y cyfnod hwn, bod y gostyngiad yn arbennig o amlwg ymhlith menywod rhwng 50 a 64 oed. Gostyngodd y gyfradd anweithgarwch (gan eithrio myfyrwyr) 14.4 pwynt canran dros y cyfnod hwn (o'i gymharu â 7.1 pwynt canran a welwyd ar gyfer dynion).

Ffigur 2.6: Mae anweithgarwch economaidd yn gostwng ymhlith y garfan hŷn o'r boblogaeth sydd mewn oedran gweithio, ond yn codi ymhlith y garfan ieuengaf
Cyfradd anweithgarwch economaidd (gan eithrio myfyrwyr) yng Nghymru, yn ôl oedran



Nodyn: Mae'r data blynyddol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Medi o'r flwyddyn dan sylw
Ffynhonnell: StatsCymru (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)


- 2.15 Mae NEET yn cyfeirio at bobl ifanc nad ydynt ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Roedd cyfran y rhai 15 i 24 oed a gafodd eu categoraiddio fel NEET yn y DU 2.6 pwynt canran yn uwch yn y DU na chyfartaledd yr OECD yn 2024 (13.8% o'i gymharu ag 11.2%).⁴²
- 2.16 Yn 2024, roedd 47,100 o bobl 16 i 24 oed yng Nghymru yn NEET, sef 13.7% o'r garfan hon – diffiniwyd bod 9.5% o'r garfan yn anweithgar yn economaidd, a 4.2% yn ddi-waith.⁴³ Fel y dengys **Ffigur 2.7**, roedd cyfanswm y gyfran NEET 3.5 pwynt canran yn is na'r un ffigwr ddegawd ynghynt (17.2% yn 2014) ac 0.8 pwynt canran yn is na'r ffigwr o 2004 (14.5%). Fel y gellir gweld, gwelwyd cynnydd yn y gyfradd NEET ar ôl yr Argyfwng Ariannol Byd-eang (AAB), ac mae tystiolaeth o

⁴² OECD (n.d). 'Youth not in employment, education or training (NEET)'. [Cyrchwyd 23 Chwefror 2026].

⁴³ Mae ffigurau ar gyfer 2024 yn rhai dros dro.

ddirwasgiadau yn awgrymu mai gweithwyr iau yw'r grŵp oedran sy'n cael ei effeithio waethaf gan ddirywiadau economaidd.⁴⁴

Ffigur 2.7: Mae'r mwyafrif o bobl ifanc sy'n NEET yn anweithgar yn economaidd
Cyfran y rhai 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru



Nodyn: Mae ffigurau ar gyfer 2024 yn rhai dros dro.

Ffynhonnell: StatsCymru

- 2.17 Yn ogystal â'r effaith ar botensial enillion gydol oes, mae tystiolaeth yn awgrymu y gall profi diweithdra hirfaith yn ystod cyfnodau cynnar oedolaeth arwain at effeithiau 'creithio' parhaus yn y tymor hir sy'n dylanwadu ar ganlyniadau cyflogaeth drwy gydol oes unigolyn.⁴⁵ Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc hefyd yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd meddwl gwaeth sy'n parhau drwy gydol oes unigolyn, ac sy'n gwaethygu gyda phrofi cyfnodau o ddiweithdra dro ar ôl tro.⁴⁶
- 2.18 Canfuwyd hefyd fod iechyd meddwl hunan-adroddedig pobl ifanc ledled y DU yn is na phob grŵp oedran arall ac, yn fwy pryderus fyth, ei fod wedi dirywio dros y degawdau diwethaf, gyda'r dirywiad hwn yn cael ei gysylltu â'r lefelau cynyddol o anweithgarwch economaidd ymhlith pobl iau. Mae cael problem iechyd meddwl yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth yn y farchnad lafur, waeth beth fo'r cymwysterau.⁴⁷

⁴⁴ Benito and Bunn (2011). '[Understanding labour force participation in the United Kingdom](#)'. Bank of England Quarterly Bulletin 2011.

⁴⁵ Ralston and others (2021). '[Economic Inactivity, Not in Employment, Education or Training \(NEET\) and Scarring: The Importance of NEET as a Marker of Long-Term Disadvantage](#)'. Work, Employment and Society, 36(1), 59-79.

⁴⁶ Strandh and others (2014). '[Unemployment and mental health scarring during the life course](#)'. European Journal of Public Health, Cyfrol 24, Rhifyn 3, Tudalennau 440-445,

⁴⁷ McCundy & Murphy (2024). '[We've only just begun: Action to improve young people's mental health, education and employment](#)'. Resolution Foundation.

- 2.19 Mae cyrhaeddiad addysgol, dyheadau galwedigaethol ac addysgol, agweddau tuag at yr ysgol a dysgu, absenoldeb o'r ysgol, statws economaidd-gymdeithasol, a nodweddion teuluol a rhieni yn ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn dod yn NEET.⁴⁸
- 2.20 Yn ôl data arolwg o'r DU, mae pobl ifanc wedi nodi prinder profiad gwaith a chysylltiadau proffesiynol fel rhwystrau sylweddol i sicrhau cyflogaeth o ansawdd, ynghyd â diffyg cyfleoedd hyfforddi. Ymhlith yr heriau ychwanegol a nodwyd roedd anawsterau teithio y tu hwnt i'w hardal leol a natur hynod gystadleuol y farchnad swyddi, sy'n rhwystro mynediad at waith sefydlog ymhellach.⁴⁹

Ethnigrwydd


- 2.21 Yng Nghymru, fel yn y DU, bu bwlch parhaus ers amser maith o ran cyfranogiad yn y farchnad lafur yn ôl ethnigrwydd. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, roedd y gyfradd cyflogaeth ar gyfer y rhai 16 i 64 oed yng Nghymru yn 72.7% ar gyfer pobl Wyn,⁵⁰ tra roedd y ffigwr ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME) yn 67.1% (gwahaniaeth o 5.6 pwynt canran). Fel y dengys **Ffigur 2.8**, bu rhywfaint o gydgyfeirio yn y gwahaniaeth yn y gyfradd cyflogaeth a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er bod rhywfaint o anwadlwydd i'w weld, mae data'r farchnad lafur yn awgrymu dros y blynyddoedd diwethaf fod cyfraddau cyflogaeth is ar gyfer pobl BAME yn deillio o gyfraddau uwch o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd.

⁴⁸ Sottini and others (2025). '[Educational and Psychosocial Factors Associated with Increasing the Risk of Becoming Not in Education, Employment or Training \(NEET\) Among Young People in England: A Rapid Evidence Assessment](#)'. Youth Futures Association.

⁴⁹ Williams and others (2021). '[A Better Future: Transforming jobs and skills for young people post-pandemic](#)'. Adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth.

⁵⁰ Mae'r categori'n cynnwys pobl Wyn o Gymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Prydain ac unrhyw gefndir Gwyn arall, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

Ffigur 2.8: Gwahaniaeth parhaus yn y gyfradd cyflogaeth yn ôl ethnigrwydd, ond arwyddion bod y cyfraddau wedi dangos rhywfaint o gydgyfeirio



Nodyn: Mae'r data blynyddol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Medi ar gyfer y flwyddyn dan sylw
 Ffynhonnell: StatsCymru (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)

2.22 Dangoswyd hefyd bod y tebygolrwydd o gymryd rhan yn y farchnad lafur yn cael ei ddylanwadu gan ethnigrwydd yn ogystal â dylanwadau cenedliadol – er enghraifft, mae gwahaniaethau wedi'u harsylwi rhwng grwpiau lleiafrifoedd ethnig cenhedlaeth gyntaf (pobl a aned dramor) a'r ail genhedlaeth (pobl ag o leiaf un rhiant a aned dramor) yn y DU.⁵¹


Anabledd

2.23 Mae rhai o'r gwahaniaethau mwyaf amlwg a welir mewn cyfraddau cyfranogiad yn y farchnad lafur yn ôl nodwedd warchoddedig (lle mae data ar gael) yn ymwneud â statws anabledd. Yn 2025, ymhlith pobl 16 i 64 oed, roedd y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl yng Nghymru yn 50.5%, sef 30.7 pwynt canran yn is na'r un gyfradd ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl (81.2%). Mae **Ffigur 2.9** yn rhoi arwydd o'r hyn sy'n esbonio'r bwlch cyflogaeth hwn, gan fod cyfraddau anweithgarwch economaidd pobl anabl yng Nghymru yn uchel ac yn parhau i fod felly – 45.6% yn 2025, 30.2 bwynt canran yn uwch na phobl nad ydynt yn anabl (15.4%). Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ymhlith pobl anabl hefyd 5.0 pwynt canran yn uwch yng Nghymru nag ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd (40.6%).

⁵¹ Uned Gwahaniaethau ar sail Hil & Hwb Cydraddoldeb (2023). '[Outcomes in labour market for ethnic minorities by immigrant generation status](#)'. Llywodraeth y DU.

Ffigur 2.9: Mae ychydig o dan hanner o oedolion anabl o oedran gweithio yn anweithgar yn economaidd, sy'n sylweddol uwch na'r gyfran ar gyfer y rhai nad ydynt yn anabl

Cyfradd anweithgarwch economaidd (%) yng Nghymru ar gyfer y rhai 16 i 64 oed, yn ôl statws anabledd



Nodyn: Mae'r data blynyddol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Medi o'r flwyddyn dan sylw
Ffynhonnell: StatsCymru (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)

- 2.24 Canfu ymchwil yn 2024 fod gan y rhan fwyaf o ardaloedd (ITL3) yn yr Alban, Cymru a Gogledd Lloegr fylchau cyflogaeth pobl anabl sy'n uwch na chyfartaledd Prydain Fawr, tra bod gan y rhan fwyaf o ardaloedd yn ne Lloegr fylchau is.⁵² Amcangyfrifodd yr ymchwil hwn hefyd mai dim ond un rhan o dair o'r amrywiad gofodol yn y bwch cyflogaeth pobl anabl y gellid ei egluro gan “effeithiau pobl”, hynnyyw, gwahaniaethau yn lefelau addysg ymhlith y boblogaeth oedran gweithio. Eglurir y ddwy ran o dair sy'n weddill o'r bwch gan “effeithiau lle”, gyda thraean yn cael ei briodoli i ffactorau y gellir eu mesur a'r traean arall i ffactorau na ellir eu mesur. Canfuwyd bod ardaloedd â chrynodeiadau uchel o bobl sy'n gweithio mewn diwydiannau gwybodaeth, yn ogystal ag ardaloedd â chrynodeiadau uchel o bobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau elfennol, fel arfer â'r bylchau cyflogaeth pobl anabl isaf.
- 2.25 Ceir cyfuniad o ffactorau a nodir yn y llenyddiaeth i egluro'r canlyniadau gwaeth yn y farchnad lafur i bobl anabl ledled y DU. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn gwneud gwahaniaeth pwysig rhwng nam ac anabledd. Mae “nam” yn cyfeirio at gyflwr iechyd unigolyn, tra bo “anabledd” yn cyfeirio at y ffyrdd y caiff pobl anabl eu gwahaniaethu neu eu hamddifadu o fynediad neu gynhwysiant gan unigolion a sefydliadau eraill. Y tu hwnt i'r cyfyngiadau penodol y gall nam unigolyn eu gosod

⁵² Bryan and others (2024). ‘[The Geography of the Disability Employment Gap](#)’. Prifysgol Sheffield.

ar y math o waith y gallant ei wneud, mae pobl anabl yn aml yn wynebu rhwystrau corfforol a sefydliadol i gael mynediad at gyflogaeth ac i symud ymlaen yn eu gweithle, a gall y rhwystrau hyn gael eu gwaethygu gan ganfyddiadau negyddol o anabledd gan gyflogwyr a chydweithwyr.⁵³ Er enghraifft, mae diffyg addasiadau ac/neu gymorth sy'n ymwneud ag iechyd yn rhwystr sylweddol i gyflogaeth i bobl anabl.⁵⁴

Amddifadedd cyflogaeth rhanbarthol

2.26 Fel rhan o'i amcangyfrif o lefelau cyffredinol o amddifadedd ledled Cymru, fel y'u cyflwynir yn Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (MALIC/WIMD), mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif amddifadedd cyflogaeth ar draws ardaloedd yn seiliedig ar gyfran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n gymwys i gael budd-daliadau sy'n ymwneud â diweithdra.⁵⁵ Mae **Ffigur 2.10** yn dangos y mesur hwn yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), ardaloedd sydd fel arfer yn cynnwys tua 1,500 o bobl.


⁵³ Adran Anabledd y DU (2025). '[Disabled people's employment in the UK: A thematic review of the literature](#)'. Llywodraeth y DU.

⁵⁴ Porter (2024). '[Unlocking benefits: Tackling barriers for disabled people wanting to work](#)'. Sefydliad Joseph Rowntree.

⁵⁵ Cyfrifir drwy gyfran y rhai 18 i 66 oed sy'n gymwys i gael unrhyw un o'r canlynol: Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar gyfraniadau ac ar incwm), Lwfans Ceisio Gwaith Dull Newydd, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn seiliedig ar gyfraniadau ac yn seiliedig ar incwm), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Dull Newydd, Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Anabledd Difrifol, Lwfans Gofalwr, Cymhorthdal Incwm, a hawlwr Credyd Cynhwysol (UC) mewn gwahanol grwpiau amodoldeb (dim gofynion gwaith, cynllunio ar gyfer gwaith, paratoi ar gyfer gwaith, chwilio am waith).

Ffigur 2.10: Gwelir rhai o'r lefelau uchaf o amddifadedd cyflogaeth yn nyffrynnoedd a'r ardaloedd arfordirol yng Nghymru

Map o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAau) wedi'u cysgodi yn ôl grŵp amddifadedd cyflogaeth, MALIC 2025



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)

- 2.27 Un ffordd o ystyried data MALIC ar draws awdurdodau lleol yw edrych ar gyfran yr Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAau) o fewn yr awdurdod lleol sy'n perthyn i'r 10% neu'r 50% mwyaf difreintiedig o'r holl ardaloedd. Gellir defnyddio'r dull hwn i nodi lle mae amddifadedd yn fwy dwys ei grynodiad, yn hytrach nag yn adlewyrchiad o lefel gyfartalog o amddifadedd. Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o Ardaloedd Allbwn Isaf ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig o ran amddifadedd cyflogaeth yng Nghymru oedd Blaenau Gwent (24% o ardaloedd), gyda Castell-nedd Port Talbot yn dilyn (20% o ardaloedd). Doedd gan Sir Fynwy ddim ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig, ac roedd gan Geredigion, Gwynedd a Phowys

un LSOA yn unig yr un o fewn y categori hwn. Ar gyfer lefelau mwy cyffredin o amddifadedd, gellir nodi cyfran yr LSOAau a oedd ymhlith y 50% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Gan ddefnyddio'r mesur hwn, Powys a Sir Fynwy oedd â'r crynodiadau isaf o ardaloedd sy'n amddifadedd o ran cyflogaeth yng Nghymru (22% a 24% o ardaloedd, yn y drefn honno). Roedd gan Flaenau Gwent a Merthyr Tudful y ganran uchaf o ardaloedd â lefelau uwch na'r cyfartaledd o amddifadedd yng Nghymru (87% a 81% o ardaloedd, yn y drefn honno).⁵⁶

Sgiliau a chyrhaeddiad addysgol yng Nghymru

Rôl sgiliau wrth wella canlyniadau llafur ac economaidd

- 2.28 Mae sgiliau yn cyfeirio at y galluoedd, y cymwyseddau a'r wybodaeth y mae unigolion yn eu hennill drwy addysg, hyfforddiant a phrofiad. Ynghyd â safon iechyd unigolion, mae sgiliau yn ffurfio prif elfen cyfalaf dynol o fewn economi. Mae'r sgiliau hyn yn galluogi pobl i gyflawni tasgau'n fwy effeithlon ac effeithiol, gan hybu eu cynhyrchiant – ac felly eu perthnasedd i'r bennod flaenorol.
- 2.29 Yn ogystal â'r manteision i'r economi ehangach, mae medrusrwydd mewn llythrennedd, rhifedd a datrys problemau i gyd yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell yn y farchnad lafur, o ran cyfranogiad ac enillion.⁵⁷ Canfuwyd hefyd fod sgiliau anwybyddol – megis hunanreolaeth, cymdeithasgarwch a rheoleiddio emosiynol – yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ganlyniadau bywyd mewn amryw o feysydd.⁵⁸
- 2.30 Yng Nghymru, gellir dangos pwysigrwydd sgiliau a'r modd maent yn dylanwadau ar incymau'r farchnad lafur trwy'r cysylltiad rhwng lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol a lefelau uwch o gyfranogiad yn y farchnad lafur. Dengys hyn yn **Ffigur 2.11** ar gyfer Cymru. Roedd llai na hanner (45.0%) o'r rhai heb unrhyw gymwysterau yn weithgar yn economaidd — sef 41.2 pwynt canrannol yn is na'r rhai â chymwysterau addysg uwch neu uwch (Lefel RQF 4+), a oedd yn 86.2%. Bydd defnyddio'r LGF i helpu gwella sgiliau gweithwyr yng Nghymru felly'n hanfodol ar gyfer gwella cyfraddau cyfranogiad.
- 2.31 Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o sut olwg sydd ar y dirwedd sgiliau bresennol yng Nghymru (fel y'i mesurir gan gymwysterau).


⁵⁶ Llywodraeth Cymru (2025). '[Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\) 2025 results report](#)'.

⁵⁷ Quintini (2014). 'Skills at Work: How Skills and their Use Matter in the Labour Market'. OECD Social, Employment and Migration Working Papers No. 158

⁵⁸ OECD (2025). '[Skills that Matter for Success and Well-being in Adulthood: Evidence on Adults' Social and Emotional Skills from the 2023 Survey of Adult Skills](#)'. Astudiaethau Sgiliau OECD.

Ffigur 2.11: Mae lefelau uwch o gymwysterau fel arfer yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd o fod yn weithgar yn economaidd

Cyfradd gweithgarwch economaidd yn ôl lefel cymwysterau yng Nghymru, y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2024




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Cyrhaeddiad addysgol y gweithlu

2.32 O ran cymwysterau ffurfiol, nid yw proffil gweithlu Cymru yn rhy wahanol i'r hyn a welir yn y DU, er ei fod yn tueddu rhywfaint tuag at lefelau sgiliau is. Gellir gweld dosbarthiad y lefelau uchaf o gymwysterau a gyflawnwyd gan bobl 18 i 64 oed yng Nghymru a'r DU yn **Ffigur 2.12**. Fel y dengys y ffigur, roedd cyfran y rhai heb gymwysterau yn 2024 yn uwch yng Nghymru o 1.8 pwynt canrannol, tra bo'r gyfran â chymwysterau ar y lefel honno neu'n uwch yn is yng Nghymru nag yn y DU ar lefelau RQF 2, 3 a 4.⁵⁹ Roedd cyfran y rhai â chymwysterau ar Lefel RQF 4 neu uwch (sy'n cynnwys cymwysterau addysg uwch) yn 3.0 pwynt canrannol yn is yng Nghymru nag yn y DU.

⁵⁹ Dim cymwysterau: dim cymwysterau ffurfiol, Lefel 1: un i bedwar pas TGAU (gradd A* i C neu radd 4 ac uwch) ac unrhyw TGAU eraill ar raddau eraill, neu gymwysterau cyfatebol, Lefel 2: pum pas TGAU neu ragor (gradd A* i C neu radd 4 ac uwch) neu gymwysterau cyfatebol, gan gynnwys prentisiaethau, Lefel 3: dau gymhwyster Safon Uwch neu ragor, neu gymwysterau cyfatebol, Lefel 4 neu uwch: Tystysgrif Genedlaethol Uwch, Diploma Cenedlaethol Uwch, gradd Baglor, neu gymwysterau ôl-raddedig.

Ffigur 2.12: Mae gan weithlu Cymru lefelau cymwysterau ychydig yn is
Cyfran (%) â'r lefelau uchaf o gymwysterau ymhlith pobl 18 i 64 oed, 2024



Ffynhonnell: StatsCymru (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)

- 2.33 Mae ymchwil yn awgrymu bod cymwysterau addysg uwch ac addysg bellach ill dau fel arfer yn arwain at enillion uwch yn y DU. Mae enillion o gymwysterau'n amrywio yn ôl y maes astudio; mae disgyblaethau fel STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg), y gyfraith a'r economeg yn gysylltiedig â phremiymau enillion uwch. O ran cymwysterau addysg uwch, ymddengys bod y sefydliad lle astudiodd unigolion hefyd yn dylanwadu ar eu henillion, tra bo'r effaith hon yn llai amlwg ymhlith y rhai sydd â chymwysterau addysg bellach.⁶⁰
- 2.34 Er bod proffil cymwysterau Cymru yn tueddu ychydig tuag at gymwysterau is na'r DU, mae newidiadau cadarnhaol sylweddol wedi digwydd yn lefelau cyrhaeddiad addysgol ymhlith oedolion o oedran gweithio hanesyddol yn y DU.⁶¹ Yn 2004, roedd cyfran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau yn 17.0%, ac roedd tua chwarter yr oedolion (25.4%) â chymhwyster ffurfiol ar Lefel RQF 4 neu uwch. Dros y ddau ddegawd dilynol, roedd y gyfran heb gymwysterau wedi mwy na haneru (cwmp o 9.4 pwynt canrannol i 7.6%), tra bod cyfran y rhai â chymwysterau ar (neu uwch na) lefelau 2, 3 a 4 oll wedi cynyddu – gweler **Ffigur 2.13** am ragor o wybodaeth.
- 2.35 Mae dadansoddiad o economi'r DU yn awgrymu bod newid yn nghyfansoddiad y gweithlu tuag at weithwyr â lefelau uwch o gymwysterau wedi cyfrannu'n


⁶⁰ Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (2023). '[Labour market value of higher and further education qualifications: a summary report](#)'.

⁶¹ Diffinnir oedran gweithio hanesyddol fel menywod 18–59 oed a dynion 18–64 oed, ac fe'i defnyddir i alluogi cymariaethau dros gyfnodau hirach gan mai dim ond ar sail y diffiniad hwn o oed gweithio y mae data o 2004 ar gael.

gadarnhaol at dwf allbwn a chynhyrchiant (er y gallai'r effaith hon fod wedi gwanhau yn sgil yr argyfwng ariannol byd-eang).⁶²

Ffigur 2.13: Mae proffil cymwysterau Cymru wedi gwella dros y degawdau diwethaf

Cyfran (%) â'r lefelau uchaf o gymwysterau ymhlith oedolion o oedran gweithio hanesyddol, 2004 i 2024



Nodyn: *Diffinnir oedran gweithio hanesyddol fel menywod 18–59 oed a dynion 18–64 oed
Ffynhonnell: StatsCymru (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)

- 2.36 Mae cyrhaeddiad addysgol hefyd yn amrywio rhwng rhanbarthau ac mae'n bwysig i'r CJCau roi sylw iddo, yn enwedig o ystyried y canlyniadau gwaeth yn y farchnad lafur i'r rhai â lefelau is o gyrhaeddiad addysgol. Fel y dengys **Ffigur 2.14**, roedd cyfran y boblogaeth heb sgiliau yn 2024 ar ei isaf yng Ngheredigion ar 2.3% ac ar ei uchaf ym Mlaenau Gwent ar 13.8%. Mae gan Gyfoedd De Cymru lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol isel, gan fod pob awdurdod lleol yn y rhanbarth yn adrodd bod eu cyfran o oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau yn uwch na chyfartaledd Cymru o 7.9%.
- 2.37 Mae dadansoddiad rhanbarthol wedi nodi o'r blaen fod llawer o ardaloedd yng Nghymoedd De Cymru ac yng Ngogledd Cymru mewn "cydbwysedd sgiliau isel". Dyma lle mae'r galw lleol am lafur a'r cyflenwad llafur yn cael eu gogwyddo'n bennaf tuag at sgiliau isel. Felly, gall mynd i'r afael â chyflenwad llafur heb wella'r amodau ar gyfer y galw am lafur (drwy greu cyfleoedd gwaith â chyflogau uwch neu sy'n fwy cynhyrchiol) arwain at ormodedd o sgiliau.⁶³ Felly, mae'n bwysig


⁶² Conlon and others (2023). '[Skills and UK productivity: Estimating the contribution of educational attainment to productivity growth](#)'. Yr Adran Addysg.

⁶³ Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth (2017). '[Future of Skills & Lifelong Learning](#)'.

sicrhau bod ymyriadau sy'n anelu at wella cystadleurwydd a chynhyrchiant busnesau yn cael eu cydlynu â'r ymyriadau yn y farchnad lafur dan ystyriaeth.

Ffigur 2.14: Mae Awdurdodau Lleol De-ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru yn cyfrif am y mwyafrif o'r ardaloedd lle mae diffyg cymwysterau yn y gweithlu yn uwch na chyfartaledd Cymru

Cyfran (%) y rhai 18 i 64 oed heb gymhwyster, yn ôl awdurdod lleol, 2024



Ffynhonnell: StatsCymru (Arolwg Poblogaeth Blynyddol)

2.38 O ystyried y cysylltiad rhwng cymwysterau a chyfranogiad yn y farchnad lafur, mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn rhoi mewnwelediadau i'r graddau y gall gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad rhwng nodweddion gwarchodedig helpu i egluro'r bylchau cyflogaeth a welir rhwng grwpiau. Dangosodd y dadansoddiad fod cyrhaeddiad addysgol, yn 2024, yn gyffredinol yn uwch ymhlith pobl o oedran gweithio nad ydynt yn anabl nag ymhlith pobl anabl yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu y gall fod rhwystrau ychwanegol sy'n wynebu pobl anabl wrth geisio cael gwaith – gan adlewyrchu'r angen i wella mynediad at weithgareddau addysgol. Fodd bynnag, roedd cyrhaeddiad addysgol yn gyffredinol uwch ar gyfer menywod a lleiafrifoedd ethnig nad ydynt yn wyn, sy'n awgrymu nad lefel sgiliau ffurfiol yw'r prif esboniad dros y bylchau cyflogaeth a welir ymhlith y grwpiau hyn.⁶⁴

⁶⁴ Llywodraeth Cymru (2025). '[Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio: 2024](#)'.

Gwella sgiliau a chyfranogiad yn y farchnad lafur

2.39 Mae'r is-adrannau canlynol yn ceisio rhoi trosolwg o'r math o ymyriadau y mae'r llenyddiaeth yn awgrymu sy'n gallu gwella cyfranogiad yn y farchnad lafur a sgiliau. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau sydd â chymhwysedd eang ar draws grwpiau, yn ogystal â'r rhai a gynlluniwyd i wella canlyniadau llafur ar gyfer grwpiau yn ôl nodwedd, yn seiliedig ar y rhwystrau penodol i gyflogaeth ac addysg y maent yn eu hwynebu.

Uwchsgilio gweithwyr

2.40 Fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr adroddiad hwn, mae lefelau cymwysterau'n gysylltiedig yn gryf â chanlyniadau'r farchnad lafur i'r unigolyn, yn ogystal â chanlyniadau economaidd-gymdeithasol ehangach i wledydd a rhanbarthau yn gyffredinol. Mae cymwysterau eu hunain yn gweithredu fel signalau i gyflogwyr ynghylch y sgiliau sydd gan ddarpar weithwyr.

2.41 Mae meta-ddadansoddiadau o raglenni'r farchnad lafur ar draws Ewrop ac mewn gwledydd eraill yn dangos bod ymyriadau sy'n canolbwyntio ar Gronni cyfalaf dynol (uwchsgilio) yn gallu gwella cyflogaeth ac enillion yn fwy effeithiol na dulliau eraill. Mae'r effeithiau cychwynnol yn gymedrol, ond gwelir cynnydd parhaus yn y tebygolrwydd o gael swydd ac yn y cyfraddau cyflogaeth dros amser (fel arfer ar ôl dwy i dair blynedd).⁶⁵

2.42 Mae adolygiadau eraill o'r llenyddiaeth sydd ar gael hefyd wedi canfod effeithiau cadarnhaol gan raglenni hyfforddi cyflogaeth ar ganlyniadau cyflogaeth ac ar gyflogau.⁶⁶ Canfuwyd bod rhaglenni byr yn fwy effeithiol ar gyfer gweithgareddau hyfforddi llai ffurfiol, tra bod rhaglenni hyfforddi estynedig yn arbennig o fuddiol ar gyfer hyfforddiant a ystyrid yn 'ddwys o ran sgiliau'. Canfuwyd yn arbennig o bwysig fod hyfforddiant sgiliau a ddarperir yn y gweithle neu drwy brofiad ymarferol yn fwy llwyddiannus na dulliau traddodiadol yn ystafell ddosbarth.

2.43 Bydd y mathau o sgiliau y gall rhaglenni hyfforddi geisio eu gwella fel arfer yn syrthio i dri chategori:

- **Sgiliau sylfaenol:** Mae'r rhain yn sgiliau sylfaenol sy'n ofynnol gan bawb waeth beth fo'r rôl – ac maent yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a llawer o sgiliau digidol sylfaenol.

⁶⁵ Card, Kluve, and Weber (2018). 'What works? A meta analysis of recent active labor market program evaluations'. Journal of the European Economic Association, Cyf. 16, Rhif 3, tt. 894-831

⁶⁶ What Works Centre for Local Economic Growth (2016). '[Evidence review: Employment Training](#)'.

- **Sgiliau hanfodol:** Mae'r rhain yn aml yn cynnwys sgiliau fel sgiliau meddal – cyfathrebu, gwaith tîm ac arweinyddiaeth – sy'n drosglwyddadwy ac sy'n angenrheidiol ar draws y rhan fwyaf o rolau.
- **Sgiliau technegol:** Sgiliau sy'n ofynnol i weithio'n effeithiol mewn rhai proffesiynau a/neu ddiwydiannau.

- 2.44 Mae sgiliau sylfaenol yn hanfodol oherwydd y cysylltiad cryf sydd ganddynt nid yn unig â chanlyniadau economaidd unigolyn ond hefyd â'u canlyniadau iechyd a chymdeithasol. Heb y sgiliau hyn gall unigolion gael trafferth cael mynediad at wasanaethau hanfodol a chyfranogi'n effeithiol ynddynt.⁶⁷ Mae adolygiadau tystiolaeth yn awgrymu bod atgyfnerthu cadarnhaol o ymdrechion dysgwyr, defnydd effeithiol o offer digidol, a hyd y cwrs yn ystyriaethau pwysig i'r rhai sy'n darparu hyfforddiant sgiliau sylfaenol i oedolion.⁶⁸
- 2.45 Mae tystiolaeth o 2023 sy'n dadansoddi hysbysebion swyddi yn awgrymu bod sgiliau meddal (megis cyfathrebu, gwaith tîm ac arweinyddiaeth) mewn galw mawr ledled Cymru.⁶⁹ Mae'r sgiliau hyn yn dal i gael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr ac fe'u hystyrir yn ategol i sgiliau digidol mewn diwydiannau sy'n cael eu gyrru gan dechnoleg.⁷⁰ Fodd bynnag, gall addysgu sgiliau meddal fod yn fwy heriol, ac mae angen gofal wrth ddylunio cyrsiau er mwyn sicrhau bod yr amcanion dysgu yn cael eu cyflawni'n ddigonol.⁷¹
- 2.46 Er mwyn gwella sgiliau technegol, awgrymodd adolygiad o fodolau sector-benodol sy'n cael eu gyrru gan alw yng Nghanaada fod y modelau hyn yn dibynnu ar gysylltiadau cryf rhwng cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a chyrrff datblygu'r gweithlu eraill er mwyn bod yn llwyddiannus.⁷² Yng Nghymru, caiff y dull hwn ei hwyluso gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (PSRau), gydag un bartneriaeth ym mhob rhanbarth economaidd/CJC. Bydd gan y cyrrff hyn fewnwelediadau ar anghenion a bylchau sgiliau ar gyfer meysydd allweddol o dwf posibl. Mae enghreifftiau'n cynnwys technoleg ariannol a lled-ddargludyddion cyfansawdd yn Ne-ddwyrain Cymru, a logisteg a gweithgynhyrchu uwch yng Nghanolbarth

⁶⁷ Age UK (2024). ['Low literacy and numeracy skills lead to difficulties accessing essential services and benefit entitlements, says Age UK'](#)

⁶⁸ Bradstreet and others (2023). ['Evidence review: What works to improve adult basic skills?'](#) Sefydliad Dysgu a Gwaith.

⁶⁹ Pearson (2023). ['Wales Regional Skills Maps'](#).

⁷⁰ Poláková and others (2023). ['Soft skills and their importance in the labour market under the conditions of Industry 5.0'](#). Heliyon.

⁷¹ Laker and Powell (2011). ['The differences between hard and soft skills and their relative impact on training transfer'](#). Human Resource Development Quarterly. Cyfrol 22, Rhifyn 1, tt 111-122

⁷² Myers, Harding, and Pasolli (2021). ['Skills Training That Works: Lessons from Demand-Driven Approaches'](#). Astudiaeth IRPP 84. Montréal: Institute for Research on Public Policy

Cymru. Dylai gweithredu hyfforddiant llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan sgiliau geisio manteisio ar y strwythurau presennol hyn, lle bo'n briodol.

Gwella canlyniadau'r farchnad lafur yn ôl rhywedd

- 2.47 Fel gyda dynion, y prif reswm mwyaf cyffredin dros anweithgarwch ymhlith menywod 16 i 64 oed yng Nghymru yw salwch hirdymor,⁷³ sy'n golygu bod polisïau sy'n anelu at wella canlyniadau sy'n ymwneud ag iechyd corfforol a meddyliol gwael yn cynnig manteision amlwg i wella canlyniadau'r farchnad lafur i fenywod. Caiff yr ymyriadau hyn eu trafod ymhellach yn y rhan sy'n ymwneud â gwella canlyniadau'r farchnad lafur i bobl anabl.
- 2.48 Fodd bynnag, er bod cyfran y menywod sy'n adrodd eu bod yn anweithgar yn economaidd yn bennaf oherwydd gofalu am y teulu/cartref wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dyma o hyd yr ail reswm mwyaf cyffredin a nodir dros anweithgarwch yn ôl y data diweddaraf. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, nododd 21.8% o fenywod 16 i 64 oed yng Nghymru eu bod yn anweithgar yn bennaf am y rheswm hwn, sef 16.2 pwynt canran yn uwch na'r ffigur ar gyfer dynion (5.6%).⁷⁴
- 2.49 Mae'r ymyriadau allweddol a gyfeirir atynt yn y llenyddiaeth i fynd i'r afael ag anweithgarwch oherwydd gofalu am eraill yn cynnwys ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i helpu i leihau neu o leiaf ymdopi â'r cyfrifoldebau hyn. Mae fforddiadwyedd a hygyrchedd gofal plant yn cael eu nodi fel ffactorau pwysig i alluogi menywod i fynd i mewn i'r farchnad lafur (neu ddychwelyd iddi), o ystyried y rhwystrau amlwg y mae'r rhain yn eu gosod ar gyfranogiad.⁷⁵ O ran sgiliau, mae'n debygol y bydd hyblygrwydd yn y dull o gyflwyno hyfforddiant yn bwysig er mwyn diwallu anghenion y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu a gwella'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd.⁷⁶ Mae hyn yn ystyriaeth bwysig pa un a yw hyfforddiant sgiliau'n cael ei gynnig mewn lleoliad gwaith (er enghraifft, gan gyflogwr) neu y tu allan i'r fath leoliad.
- 2.50 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod menywod yn tueddu at gyrhaeddiad addysgol uwch na dynion yng Nghymru, felly mae gwella'r rhwystrau i gyflogaeth i fenywod sy'n dymuno dod o hyd i waith yn cynnig cyfleoedd amlwg i gyflogwyr.

⁷³ Llywodraeth Cymru (2026). '[Labour market statistics \(Annual Population Survey\): October 2024 to September 2025](#)'.

⁷⁴ Data wedi'i gymryd o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol

⁷⁵ PwC (2023) '[The economic impact of childcare policy: an empirical analysis](#)'.

⁷⁶ Women and Equalities Unit (2019). '[Flexible working qualitative analysis](#)'.

Gwella canlyniadau'r farchnad lafur yn ôl ethnigrwydd

- 2.51 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu ar ganlyniadau'r farchnad lafur ar gyfer lleiafrifoedd ethnig. Fel gyda grwpiau eraill, gall sgiliau, rhwydweithiau a normau diwylliannol (er enghraifft, mewn perthynas â chyfrifoldebau gofalu) ddylanwadu ar gyfranogiad yn y farchnad lafur. Fodd bynnag, mae lleiafrifoedd ethnig hefyd yn wynebu gwahaniaethu hiliol sy'n gallu effeithio ar eu mynediad at addysg a'u perfformiad ynddo,⁷⁷ yn ogystal â'u canlyniadau cyflogaeth, sydd fel arfer yn waeth.⁷⁸ Mae unigolion o rai lleiafrifoedd ethnig – Bangladeshi, Pacistanaidd a Du – hefyd yn fwy tebygol o fod mewn swyddi â chyflog isel ac o ansawdd gwaeth, megis ffurfiau mwy ansicr o gyflogaeth.⁷⁹
- 2.52 I grwpiau mudol, gall sgiliau cyfyngedig yn yr iaith Saesneg greu rhwystr gwirioneddol i chwilio am waith ac i sicrhau cyflogaeth. Gall dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) fod yn fuddiol ar gyfer gwella sgiliau iaith; fodd bynnag, gall eu heffeithiolrwydd ddibynnu ar sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cyfeirio at ddsbarthiadau sy'n briodol i'w lefel o hyfedredd, dwyster y dosbarthiadau, a chymhellant y myfyrwyr i ddysgu.⁸⁰
- 2.53 Mae gwerthusiadau blaenorol o raglenni prentisiaethau ar draws gwledydd datblygedig yn awgrymu bod unigolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a mudol yn llai tebygol o gymryd rhan yn y rhaglenni hyn na'u cyfoedion.⁸¹ Awgrymodd yr un gwerthusiad fod y buddion llawn o gwblhau prentisiaethau – o ran canlyniadau cyflogaeth ac enillion cyflog – efallai'n llai pendant i grwpiau lleiafrifol. Ceir arsylwadau tebyg ar gyfer hyfforddiant cyflogaeth, sy'n tanlinellu'r angen i ddarparwyr hyfforddiant archwilio sut y gallant estyn allan yn well at unigolion o leiafrifoedd ethnig.
- 2.54 Mae rhaglenni mentora hefyd wedi'u hyrwyddo'n benodol i gynyddu hyder a pharodrwydd i weithio ymhlith pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, er bod gan y rhaglenni hyn gymhwysedd eang, waeth beth fo'u hethnigrwydd.

Gwella canlyniadau'r farchnad lafur i bobl anabl

- 2.55 Mae llawer o'r agweddau craidd ar wella canlyniadau'r farchnad lafur i bobl anabl y tu allan i gwmpas yr LGF, o ystyried y rôl hanfodol y mae polisi iechyd cyhoeddus

⁷⁷ Metcalf and others (2014). '[How place influences employment outcomes for ethnic minorities](#)'. Sefydliad Joseph Rowntree.

⁷⁸ UCL (2025). '[UK employers less likely to recruit disadvantaged ethnic minority graduates](#)'.

⁷⁹ Hudson and others (2026). '[Ethnicity, poverty, and in-work inequalities in the UK](#)'.

⁸⁰ Adran Gwaith a Phensiynau y DU (2019). '[Interventions supporting ethnic minority labour market participation: part one](#)'.

⁸¹ What Works Centre for Local Economic Growth (2024). '[Rapid evidence review: The impact of local economic growth interventions on minority ethnic and immigrant groups](#)'.

a lles yn ei chwarae wrth ddylanwadu ar y canlyniadau hyn. Fodd bynnag, wrth gynyddu cyfleoedd hyfforddi sgiliau, gall llunwyr polisi lleol barhau i geisio dylanwadu ar ba mor hygyrch yw cyfleoedd sgiliau a chyflogaeth er mwyn hybu cyfraddau cyfranogiad.

- 2.56 Gan fod cyrhaeddiad addysgol fel arfer yn is yng Nghymru i bobl anabl nag i bobl nad ydynt yn anabl, dylai hyfforddiant sgiliau geisio gwneud ei ddarpariaeth mor hygyrch â phosibl i oedolion anabl. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhan o'r bwlch cyflogaeth rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn deillio o wahaniaethau yn lefelau cymwysterau (tua 12% yn y DU, mewn un astudiaeth).⁸²
- 2.57 Dylid ystyried dileu'r rhwystrau i addysg gynhwysol. Mae diffyg hyblygrwydd mewn trefniadau addysgol wedi'i nodi fel ffactor sy'n gallu cyfyngu ar allu myfyrwyr anabl i gymryd rhan mewn addysg.⁸³ Mae sicrhau bod staff sy'n darparu hyfforddiant eu hunain â'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol i gefnogi dysgwyr anabl yn hollbwysig er mwyn gallu cynllunio cyrsiau sy'n diwallu anghenion unigol yn y ffordd orau.
- 2.58 Mae llawer o bobl anabl yn adrodd bod agweddau cydweithwyr a chyflogwyr tuag atynt yn gallu cael effaith negyddol ar eu gallu i gael a chynnal cyfleoedd cyflogaeth. Mae darparu hyfforddiant o ansawdd da i gyflogwyr, er mwyn eu galluogi i recriwtio a chefnogi gweithwyr anabl yn well, wedi'i nodi yn y llenyddiaeth fel rhywbeth hollbwysig i hybu eu cyfranogiad yn y farchnad lafur.⁸⁴ Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y cymorth y mae Llywodraeth Cymru, drwy Busnes Cymru, yn ei ddarparu i gyflogwyr gyda adnoddau ar sut y gallant recriwtio, cefnogi a chadw gweithwyr anabl yn fwy effeithiol.⁸⁵
- 2.59 Mae adolygiad o'r lenyddiaeth sydd ar gael yn awgrymu bod gwasanaethau cymorth cyflogaeth, sy'n helpu pobl â phroblemau iechyd corfforol neu feddyliol i ddod o hyd i waith a'i gadw, yn effeithiol wrth wella canlyniadau yn y farchnad lafur.⁸⁶ Fel arfer, mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau iechyd er mwyn gallu diwallu anghenion unigol y rhai sy'n rhyngweithio â hwy yn y ffordd orau.

⁸² Bryan and others (2025). '[The role of education in the disability employment gap](#)'. Oxford Economic Papers. Cyfrol 77, Rhifyn 4, tt 1106–1127

⁸³ Uned Anabledd (2026). '[Disabled people's lived experience of education in the UK: an evidence review](#)'. Llywodraeth y DU.

⁸⁴ Uned Anabledd (2025). '[Disabled people's employment in the UK: A thematic review of the literature](#)'. Llywodraeth y DU.

⁸⁵ Busnes Cymru (d.d). '[Cyflogaeth Pobl Anabl](#)'. [Cyrchwyd 5 Mawrth 2026]

⁸⁶ Ramsay (2024). '[What Policy Interventions Are Needed to Reduce Economic Inactivity for People with Poor Health and Older People?](#)'. International Public Policy Observatory.

Gwella canlyniadau'r farchnad lafur i bobl ifanc

- 2.60 Yn gyffredinol, y cyfnod gorau i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y prif gymwysterau a fydd yn gwella eu rhagolygon yn nes ymlaen yn eu bywyd yw yn ystod cyfnod eu haddysg orfodol. Fodd bynnag, i oedolion ifanc nad ydynt bellach mewn addysg orfodol, mae sicrhau bod cymorth ar gael i ennill cymwysterau hanfodol yn cael ei gefnogi'n eang yn y llynyddiaeth. Gall y sgiliau neu'r cymwysterau a grybwyllwyd uchod gael effaith ychwanegol os cânt eu hennill yn gynharach yn (neu cyn) oes waith unigolyn.
